

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Ymchwiliad i Bolisïau Cynllunio
yng Nghymru

Ionawr 2011



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled, gan:

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8009
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: sustainability.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Ymchwiliad i Bolisïau Cynllunio
yng Nghymru

Ionawr 2011



Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Penodwyd y Pwyllgor Cynaliadwyedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried materion sy'n effeithio ar Newid yn yr Hinsawdd, Ynni, Materion Gwledig ac Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Chynllunio ac i baratoi adroddiadau yn eu cylch

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 yn un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Rhestrir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig yn SO 12. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r pwyllgor

<i>Aelod pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Kirsty Williams	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Brycheiniog a Maesyfed
Lorraine Barrett	Llafur	De Caerdydd a Phenarth
Joyce Watson	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Irene James	Llafur	Islwyn
Leanne Wood	Plaid Cymru	Canol De Cymru
Angela Burns	Plaid Geidwadol Cymru	Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro
Karen Sinclair	Llafur	De Clwyd
Rhodri Glyn Thomas	Plaid Cymru	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Brynle Williams	Plaid Geidwadol Cymru	Gogledd Cymru

Roedd yr Aelod(au) canlynol hefyd yn aelod(au) o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:

Michael German	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Dwyrain De Cymru
----------------	--------------------------------	------------------

Cynnwys

Cynnwys	4
Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion y Pwyllgor	7
1. Cyflwyniad	13
Cylch Gorchwyl	14
Y Cefndir Deddfwriaethol	15
Sut mae'r System Cynllunio'n Gweithio yng Nghymru.....	16
Materion Allweddol	20
2. Sut mae'r System Cynllunio Bresennol yn Gweithio yng Nghymru	21
3. Polisiâu Cynllunio Cenedlaethol	26
4. Cynllun Gofodol Cymru	34
5. Polisiâu Cynllunio Lleol	36
6. Tai Fforddiadwy	42
7. Ynni Adnewyddadwy	44
8. Datblygu ac Adnewyddu'r Economi	46
9. Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd	48
10. Sgiliau, Adnoddau a Hyfforddi	53
Atodiad A: Crynodeb o'r Cynnydd gyda'r CDLlau - Rhagfyr 2010 ...	57
Tystion	60
Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig	62

Rhagair y Cadeirydd

Dim ond ychydig o feysydd polisi sy'n cael effaith mor eang â chynllunio. O ddatblygu cynaliadwy, adfywio economaidd a pholisi ynni i drafnidiaeth, bioamrywiaeth, tai a byw'n iach, mae polisi cynllunio'n chwarae rhan ganolog mewn perthynas â sut y mae polisïau'r Llywodraeth yn cael eu cyflawni ar lawr gwlad.

Am y rheswm hwnnw, ym mis Ebrill 2010, penderfynodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd gynnal ymchwiliad eang i bolisi cynllunio yng Nghymru. Wrth wneud hyn, gwnaethom benderfynu peidio ag edrych ar y system ceisiadau cynllunio oherwydd ein bod yn teimlo ei bod wedi'i thrafod yn ddigonol yn yr adolygiad a gynhaliwyd gan GVA Grimley ar ran Llywodraeth Cymru. Yn lle hynny, penderfynodd y Pwyllgor ganolbwyntio ar ddatblygu polisi cynllunio ar lefel genedlaethol a lleol ac ar ba mor llwyddiannus y mae o ran cyfrannu at gyflawni amcanion allweddol Llywodraeth Cymru.

Roedd y Pwyllgor wedi'i galonogi i gael gwybod bod nifer o bethau sy'n gweithio'n dda o ran y polisi cynllunio presennol ond, yn ôl yr arfer, rôl y Pwyllgor yw amlygu'r manau hynny lle mae angen gwneud diwygiadau a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru yn eu cylch.

Mae'r adroddiad yn cynnwys 30 o argymhellion, y credwn y byddent oll yn gwella sut y mae'r system gynllunio'n cael ei gweithredu yng Nghymru, ac a fyddai'n cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion polisi.

Ymysg ei brif argymhellion, mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid cael Deddf neu Fesur Cynllunio i Gymru a fyddai'n cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn rhoi system ar waith sy'n cydnabod anghenion unigryw Cymru. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y systemau yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu hymwahanu i'r fath raddau erbyn hyn fel ei bod yn angenrheidiol gwneud deddfwriaeth unigryw yn y maes hwn.

Thema a oedd yn codi dro ar ôl tro yn y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor oedd yr anawsterau y mae cynllunwyr yn eu hwynebu wrth gysoni blaenoriaethau gwahanol cynaliadwyedd: blaenoriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a'r gwahanol bolisïau y

mae angen iddynt eu hystyried. Mae Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r tensiwn parhaol sy'n bodoli rhwng cyflawni amcanion cynaliadwyedd a datblygu economaidd mewn perthynas â phenderfyniadau cynllunio.

Barn y Pwyllgor yw y dylai Polisi Cynllunio Cymru gynnwys datganiad mwy eglur ar y blaenoriaethau a sut y dylid datrys y gwrthdaro rhyngddynt. Rydym hefyd yn credu y dylai rhagdybiaeth o blaid 'datblygu cynaliadwy', sydd wedi'i diffinio'n eglur, fod yn sail i egwyddor arweiniol polisi cenedlaethol a lleol, yn unol â dyletswydd Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn ystod yr ymchwiliad, daeth y Pwyllgor yn gynyddol ymwybodol o'r pwysau y mae swyddogion cynllunio lleol yn ei wynebu wrth geisio ateb y gofynion a osodir arnynt sy'n cynyddu'n gyson. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys yr angen am lefelau cynyddol well o arbenigedd technegol. Mae'r Pwyllgor yn awyddus iawn felly fod Llywodraeth Cymru'n annog proses o rannu a datblygu arbenigedd cynllunio, ac rydym wedi gwneud argymhellion manwl i'r perwyl hwnnw.

Rydym yn edrych ymlaen at weld ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad. Rwyf yn gobeithio'n wir y bydd y Llywodraeth yn cydnabod bod ein casgliadau wedi'u seilio ar y cyfoeth o dystiolaeth arbenigol a gyflwynwyd i ni, ac y bydd yn gweithredu'n gadarnhaol ar ein hargymhellion.

Fel ym mhob achos, mae'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar i'r rheini a gyfrannodd at yr ymchwiliad, yn enwedig y sefydliadau a'r unigolion hynny a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar. Hebddynt, ni allai'r Pwyllgor wneud ei waith. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar hefyd i Roisin Willmott o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, a Neil Harris o Brifysgol Caerdydd, a weithredodd fel ymgynghorwyr arbennig i'r Pwyllgor ar gyfer yr ymchwiliad hwn ac a ddarparodd arbenigedd gwerthfawr iddo.



Kirsty Williams

Cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cydfynd â'r argymhellion:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell, os bydd canlyniad y refferendwm yn llwyddiannus a bod Cymru'n symud at Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Deddf Cynulliad i atgyfnerthu deddfwriaeth cynllunio defnydd tir gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion gwahanol Cymru.

Oni fydd canlyniad y refferendwm yn arwain at gyflwyno Rhan 4, yna, dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfle a gynigir drwy'r Mesur Lleoliaeth i geisio'r cymhwysedd deddfwriaethol ehangaf posibl sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu system cynllunio defnydd tir wahanol a all ddiwallu anghenion Cymru. **(Tudalen 22)**

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'n ofalus unrhyw gynigion pellach i wireddu amcanion strategol drwy fecanwaith y system cynllunio defnydd tir er mwyn sicrhau mai dyna'r cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer gwireddu'r amcanion hynny a bod ganddi fecanweithiau cyflawni clir sy'n gysylltiedig â hwy. **(Tudalen 23)**

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu swyddogaeth y system cynllunio a'r system Rheoli Adeiladu, ar ôl datganoli'r cyfrifoldeb am Reoliadau Adeiladu ddechrau 2012. **(Tudalen 23)**

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell, ar ôl adolygu'r drefn bresennol, y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir ar fabwysiadu dull 'rheoli datblygu' ar gyfer cynllunio defnydd tir. Dylai'r canllawiau hyn restru'r amrywiaeth o swyddogaethau a gweithgareddau sy'n ategu penderfyniadau ar geisiadau ac apeliadau cynllunio wrth sicrhau datblygu cynaliadwy. **(Tudalen 24)**

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu rhagor o ymchwil i weld i ba raddau y mae penderfyniadau ar geisiadau cynllunio mynd yn groes i argymhelliad swyddog a'r problemau sy'n codi yn sgil hynny. **(Tudalen 25)**

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r canllawiau ar gynllunio a'r laith Gymraeg a hynny'n flaenoriaeth. **(Tudalen 27)**

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

- ddiwygio pennod 1 Polisi Cynllunio Cymru i ddatgan yn fwy clir beth yw ei blaenoriaethau strategol ac i egluro sut y dylid datrys amcanion sy'n gwrthdaro â'i gilydd pan fyddant yn codi yn y system cynllunio;
- sicrhau bod y datganiad polisi newydd arfaethedig am ddatblygu economaidd yn dweud yn glir sut y disgwylir i bob polisi cynllunio cenedlaethol gyfrannu at wireddu Rhaglen Adnewyddu'r Economi. **(Tudalen 29)**

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

- ystyried cyflwyno yn ei pholisi cynllunio ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy;
- darparu tystiolaeth benodol am gyfraniad y broses cynllunio at ddatblygu cynaliadwy yn yr adroddiad blynyddol am wireddu'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy y mae gofyn i Weinidogion Cymru ei roi gerbron y Cynulliad. **(Tudalen 30)**

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ynglŷn â sut mae mireinio ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Strategol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb. **(Tudalen 31)**

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r penodau ym Mholisi Cynllunio Cymru er mwyn sicrhau bod y polisiau rheoli datblygu cenedlaethol yn cael eu mynegi'n llawn ar ffurf polisiau y gellir croesgyfeirio'n glir atynt mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol. **(Tudalen 31)**

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno prawf effaith er mwyn pwyso a mesur unrhyw gynigion am bolisiau cynllunio cenedlaethol newydd yn y dyfodol ac y dylai ymgynghori'n eang ynglŷn â chanlyniadau'r prawf cyn cyflwyno unrhyw bolisiau newydd. Dylai'r prawf effaith gynnwys asesu effaith bosibl unrhyw bolisiau newydd ar ardaloedd gwledig yn ogystal ag ar

ardaloedd trefol. Dylai'r prawf gynnwys hefyd fecanwaith monitro i fesur canlyniad y polisi ar ôl ei roi ar waith. **(Tudalen 32)**

Argymhelliad 12. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen wedi'i diweddarau ddwywaith y flwyddyn ar gyfer cyflwyno agweddau ar bolisiâu cynllunio cenedlaethol a'r Nodiadau Cyngor Technegol sy'n gysylltiedig â hwy yn y dyfodol, ac ar gyfer eu hadolygu a'u diweddarau. Dylai hyn gynnwys manylion am ba bryd y disgwylir cyhoeddi'r fersiwn ddrafft a'r fersiwn derfynol a dylai esbonio'r rhesymau dros ohirio cyhoeddi unrhyw bolisi a chanllawiau. **(Tudalen 33)**

Argymhelliad 13. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu rôl a swyddogaeth Cynllun Gofodol Cymru gan ganolbwyntio'n benodol ar sut mae'n berthnasol i fframwaith y cynllun datblygu ac i benderfyniadau ar geisiadau ac apeliadau cynllunio. **(Tudalen 35)**

Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio mecanweithiau i gryfhau trefniadau gweithio rhanbarthol a chydweithredu ac i ategu pwysigrwydd cynnyrch ac allbwn gwaith rhanbarthol a chydweithredu. **(Tudalen 35)**

Argymhelliad 15. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Cynllun Seilwaith Strategol Cymru yng Nghynllun Gofodol Cymru er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ystyried yn llawn wrth baratoi ac archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol. **(Tudalen 35)**

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n ofalus a chyhoeddi bob chwe mis amserlen yn dangos cynnydd awdurdodau cynllunio lleol wrth iddynt baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn unol â'r Cytundebau Cyflenwi a gymeradwywyd. Os oes angen, dylai fod yn barod i ddefnyddio'i phwerau o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gymryd camau yn erbyn awdurdodau cynllunio lleol sy'n methu â chydymffurfio â'u Cytundebau Cyflenwi ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol. **(Tudalen 37)**

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru annog arferion da wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol i'w rhannu rhwng awdurdodau cynllunio lleol, gan adeiladu ar brofiad y cynlluniau hynny sydd wedi camu drwy'r system. Dylai hyn gynnwys annog defnyddio'r un geiriad mewn polisiâu mewn gwahanol Gynlluniau

Datblygu Lleol lle y bwriedir i'r polisïau hyn gyflawni'r un amcan a'u bod ar gyfer ardaloedd tebyg i'w gilydd. **(Tudalen 37)**

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

- gomisiynu gwerthusiad allanol o lwyddiant neu fethiant y dulliau a ddefnyddiwyd hyd yn hyn i ymgysylltu â'r gymuned mewn Cynlluniau Cynnwys y Gymuned wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol;
- ar sail canlyniadau'r gwerthusiad hwn, darparu canllawiau clir a hyfforddiant i staff cynllunio awdurdodau lleol ar sut mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod camau cychwynnol datblygu polisïau Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys sut mae paratoi dogfennau cynllunio hygyrch. **(Tudalen 38)**

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddatblygu Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi polisïau rheoli datblygu cenedlaethol. **(Tudalen 40)**

Argymhelliad 20. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chanllawiau ar ffurf a chynnwys adroddiadau Monitro Blyneddol Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi sylw i'r profiad a gafwyd hyd yn hyn wrth baratoi cynlluniau. **(Tudalen 40)**

Argymhelliad 21. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid rhoi mwy o bwys ar bolisïau Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill pan fydd cysylltiad amlwg rhwng y polisïau hynny a pholisïau cenedlaethol a'u hystyried yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio, cyn l'r cynllun gael ei archwilio a'i fabwysiadu'n ffurfiol yn ei grynsyth. **(Tudalen 41)**

Argymhelliad 22. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol er mwyn cyflwyno cam ymgynghori llawn ar y fersiwn ddrafft ym mhroses paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. **(Tudalen 41)**

Argymhelliad 23. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod argymhellion Arolwg Essex am sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer tai'n cael eu rhoi ar waith yn llawn. **(Tudalen 43)**

Argymhelliad 24. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniadau'r gwerthusiad o sut mae'r gymuned fusnes yn ymwneud â datblygu polisi cynllunio ac wedyn ystyried cyflwyno statws ymgynghorai neu gynghori ffurfiol i sefydliadau busnes fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol. **(Tudalen 47)**

Argymhelliad 25. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

- barhau i bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatganoli'r cyfrifoldeb am ganiatadau ynni dros 50 Megawatt i Weinidogion Cymru.
- ceisio gwelliannau i Ddeddf Cynllunio 2008 er mwyn l benderfyniadau am brosiectau ynni ar raddfa fawr yng Nghymru gael eu gwneud yn unol â pholisi cynllunio Cymru.
- os caiff y cyfrifoldeb am ganiatadau ynni dros 50 Megawatt ei ddatganoli i Weinidogion Cymru, a phan ddaw'r cymhwysedd angenrheidiol i law, dylai gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu system gyfochrog â honno a gynigir ar gyfer Lloegr, lle bydd yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr o fewn yr Arolygiaeth Cynllunio'n ystyried prosiectau ynni seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd yng Nghymru yn ogystal â'u datblygiadau cysylltiedig, ond yn cyflwyno'i hargymhellion ynglŷn â'r prosiectau hyn i Weinidogion Cymru. **(Tudalen 50)**

Argymhelliad 26. Rydym yn argymell, yn niffyg cyfrifoldeb datganoledig am ganiatadau ynni ar raddfa fawr, y dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobïo Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod y Datganiadau Polisi Cenedlaethol terfynol am ynni'n cynnwys datganiadau clir am faint o bwys y dylai'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith a'i olynydd (yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr o fewn yr Arolygiaeth Cynllunio) ei roi ar bolisi cynllunio Cymru. **(Tudalen 51)**

Argymhelliad 27. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at awdurdodau cynllunio lleol i esbonio i ba raddau y dylent ystyried y Datganiadau Polisi Cenedlaethol terfynol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. **(Tudalen 52)**

Argymhelliad 28. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi arian ychwanegol i Gymorth Cynllunio Cymru i'w gynorthwyo i ymgysylltu â'r gymuned ynglŷn â chynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith ynni mawr. **(Tudalen 52)**

Argymhelliad 29. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru annog rhannu a datblygu arbenigedd ym maes polisi cynllunio a chynigion datblygu. Awgrymwn y gall hyn ddigwydd mewn sawl ffordd:

- parhau i ddarparu arian i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i gael gafael ar gymorth technegol ar gyfer cynllunio ynni a gwastraff adnewyddadwy a darparu arian tebyg ar gyfer mathau eraill o ddatblygu lle bydd angen arbenigedd arbenigol;
- annog cydweithio a chydweithredu rhwng awdurdodau cynllunio lleol wrth ddatblygu polisiâu cynllunio lleol ac wrth ymwneud â chynigion datblygu technegol mawr ac / neu arbenigol;
- sefydlu timau cyngori arbenigol am agweddau technegol ac arbenigol polisi cynllunio a all ddarparu gwasanaethau cymorth i awdurdodau cynllunio lleol;
- parhau i ddarparu hyfforddiant ar gyfer swyddogion awdurdodau cynllunio lleol wrth i bolisi cynllunio cenedlaethol newydd gael ei gyflwyno ond gan ddarparu'r hyfforddiant hwn hefyd i Aelodau awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y rheini yn y sector preifat;
- darparu hyfforddiant i swyddogion awdurdodau cynllunio lleol ar asesu hyfywedd datblygiad, ar gyfer tai fforddiadwy'n benodol, ond hefyd ar gyfer mathau eraill o ddatblygu. **(Tudalen 55)**

Argymhelliad 30. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu rhaglen hyfforddi genedlaethol orfodol i Aelodau awdurdodau cynllunio lleol sy'n eistedd ar bwllgorau cynllunio gyda'r nod o sicrhau bod ganddynt yr arfau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Byddai'r hyfforddiant yn cynnwys y fframwaith polisi cenedlaethol, paratoi cynllun datblygu, asesu hyfywedd datblygiad a phroses y cais cynllunio. **(Tudalen 56)**

1. Cyflwyniad

“We need a quicker, more responsive process that is more flexible to changing economic and social factors, because, as we have seen over the past few years, changes are really dramatic and the system cannot cope with that. It needs more teeth.”¹

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

1. Ym mis Ebrill 2010, cyhoeddwyd ein bod yn bwriadu cynnal ymchwiliad cynhwysfawr i sut mae'r system cynllunio'n gweithio yng Nghymru. Gwyddem am waith rhagorol ymgynghorwyr cynllunio GVA Grimley² ar ran Llywodraeth Cymru wrth iddynt ystyried sut y gellid gwella'r system ceisiadau cynllunio ac am ymateb i Gweinidog i'w hadroddiad³ ac nid oeddem am ddyblygu hyn. Felly, penderfynwyd canolbwyntio ar ddatblygu polisi cynllunio ar y lefel genedlaethol ac ar y lefel leol gan archwilio pa mor effeithiol oedd y polisiau hyn o ran cynorthwyo i wireddu blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar lawr gwlad.
2. Hefyd, yn ystod ein hymchwiliad i Leihau Carbon yng Nghymru, roeddem wedi casglu rhywfaint o dystiolaeth ynglŷn â rôl y system cynllunio o ran sicrhau llai o allyriadau carbon. Cododd rôl y system cynllunio hefyd yn ein hymchwiliad diweddar i dargedau bioamrywiaeth 2010.
3. Derbyniwyd tystiolaeth lafar ar gyfer yr ymchwiliad hwn mewn saith cyfarfod rhwng 9 Mehefin 2010 ac 14 Hydref 2010. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ysgrifenedig hefyd rhwng Ebrill 2010 a Mehefin 2010.
4. Cafwyd tystiolaeth gan amrywiaeth eang o dystion, gan gynnwys:
 - y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai;

¹ Cofnod y Trafodion, Para 224, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 9 Mehefin 2010

² Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru](#), Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan GVA Grimley, Mehefin 2010

³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Argymhellion a wnaed yn; Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru](#), Mehefin 2010

- cynrychiolwyr awdurdodau cynllunio lleol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ac awdurdodau cynllunio unigol;
- Cymorth Cynllunio Cymru;
- Arolygiaeth Cynllunio Cymru;
- Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith;
- sefydliadau'n cynrychioli'r tri sector y canolbwyntiwyd arnynt yn arbennig (busnes, tai fforddiadwy, ynni adnewyddadwy);
- Ymgynghorwyr cynllunio GVA Grimley;
- cyrff statudol ac ymgylgoreion gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru;
- a chwmnïau Dŵr.

5. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i'n holl dystion am gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

Cylch Gorchwyl

6. Ym mis Ebrill 2010, cytunwyd ar y cylch gorchwyl a ganlyn:
- Edrych ar ba mor llwyddiannus y mae polisïau cynllunio defnydd tir, yn lleol ac yn genedlaethol wrth gyflenwi prif amcanion polisi Llywodraeth Cymru e.e. newid hinsawdd, tai fforddiadwy ac adfywio/datblygu economaidd.
7. Wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo, canolbwyntiwyd yn arbennig ar ateb y cwestiynau a ganlyn:
- i ba raddau mae polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol yn effeithiol o ran cynorthwyo i wireddu prif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru?
 - a yw polisïau cynllunio defnydd tir ar lefel genedlaethol a lleol yn adlewyrchu prif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i raddau digonol?
 - a yw polisïau cynllunio'n gymorth i wireddu blaenoriaethau megis tai fforddiadwy, adfywio'r economi a mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy?
 - a ydynt yn effeithiol o ran cysoni unrhyw wrthdaro posibl rhwng gwahanol bolisïau mewn meysydd megis ynni adnewyddadwy,

ansawdd y dirwedd, y ddarpariaeth tai, datblygu economaidd a datblygu cynaliadwy?

- a ydynt o gymorth i sicrhau bod penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n cyfrannu at brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru?
- a yw'r system ar gyfer paratoi a diweddarau'r polisiau cynllunio hyn yn ddigon hyblyg ac ymatebol i ymdopi â blaenoriaethau newydd a blaenoriaethau sy'n newid?
- a oes enghreifftiau o arferion da mewn gwledydd a rhanbarthau eraill y gallwn ddysgu yn eu sgil?
- pa newidiadau y gallwn eu hargymell i Lywodraeth Cymru er mwyn gwella'r system bresennol?

Y Cefndir Deddfwriaethol

8. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau gweithredu sylweddol ym maes cynllunio. Mae'r brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio yng Nghymru wedi'i chynnwys mewn tair Deddf a luniwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig (*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Deddf Cynllunio 2008*).

9. Yr unig feysydd y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd i basio Mesurau ynddynt yn y maes cynllunio yw i alluogi Gweinidogion Cymru/y Cynulliad i newid strwythur cyffredinol Cynlluniau Datblygu Lleol, y gofynion cyffredinol ar gyfer eu paratoi a'r pwerau monitro ac ymyrryd sy'n gysylltiedig â hwy. Maent hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru/y Cynulliad i ddiffinio statws Cynllun Gofodol Cymru neu i newid y statws hwnnw mewn rhyw fodd arall. Ar hyn o bryd, nid ydynt yn galluogi Gweinidogion Cymru/y Cynulliad i newid mewn unrhyw fodd sylweddol y system ceisiadau cynllunio - system sy'n dilyn y cynllun. Bydd y Mesur Lleoliaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Rhagfyr 2010, os daw'n gyfraith, yn rhoi mwy o gymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad a fyddai'n ei alluogi i basio Mesurau sy'n ymwneud ag amrywiol agweddau ar reoli datblygu yng Nghymru, er nad yw'n glir eto beth yn union fydd hyd a lled y cymhwysedd newydd arfaethedig. Os bydd canlyniad y refferendwm yn llwyddiannus a bod Cymru'n symud at ran 4 *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, byddai gan y Cynulliad wedyn gymhwysedd i basio Deddfau ym maes cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref.

Sut mae'r System Cynllunio'n Gweithio yng Nghymru

10. Pwrpas y system cynllunio defnydd tir yw gosod fframwaith a rheoleiddio datblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd, gan roi sylw llawn i faterion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Dylai gyfrannu at holl strategaethau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnyddio tir a'i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy.

11. Y brif ddeddfwriaeth cynllunio yw *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* (fel y'i diwygiwyd). Yn ôl y ddeddf hon, mae gofyn i'r 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru (y 22 Awdurdod Unedol a'r 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol) **baratoi cynllun datblygu** i'w hardal (Cynlluniau Datblygu Unedol gynt, Cynlluniau Datblygu Lleol yn awr - gweler paragraffau 21 a 22 isod) er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau ac apeliadau cynllunio'n gyson. Wrth **benderfynu ar geisiadau cynllunio**, rhaid rhoi sylw i gynllun datblygu'r ardal honno. Rhaid penderfynu'n unol â'r cynllun, oni fydd **"ystyriaethau perthnasol"** yn awgrymu'n wahanol. Dyma sylfaen y system 'sy'n dilyn y cynllun' ac mae'n rhoi pwys a phwyslais mawr ar gynlluniau datblygu.

12. Mewn egwyddor, gall unrhyw ystyriaeth sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir fod yn ystyriaeth cynllunio. Yr amgylchiadau a fydd yn penderfynu a yw ystyriaeth benodol yn un berthnasol mewn unrhyw achos penodol a faint o bwys y dylid ei roi iddi. Gwaith y Llysoedd yn y pen draw fydd penderfynu a all mater fod yn ystyriaeth cynllunio berthnasol.

13. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cynnig rhywfaint o arweiniad am yr hyn a allai fod yn ystyriaethau perthnasol:

“Gallai ystyriaethau perthnasol gynnwys yr amgylchiadau presennol, polisiâu mewn cynllun datblygu sy'n cael ei baratoi⁴ a pholisiâu cynllunio Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU. Dylid ystyried pob cais yng ngoleuni'r polisiâu mwyaf diweddar.

“Rhaid i'r ffactorau sydd i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau cynllunio (ystyriaethau perthnasol) fod yn faterion cynllunio, hynny yw, rhaid iddynt fod yn berthnasol i reoli datblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd, tuag at y nod o gynaliadwyedd.”

⁴ Cynllun Datblygu Unedol. Mae system y CDU bellach yn cael ei ddisodli'n raddol gan system y CDLI (Cynllun Datblygu Lleol)

14. Bwriedir i **Gynllun Gofodol Cymru** ddarparu'r canlynol: "a spatial expression of the Assembly Government's policies. It will address issues of restraint and development on a broad scale and provide a context for major decisions and the allocation of resources."

Cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf yn 2004 ac yna, fe'i diweddarwyd yn 2008. Er mai dogfen statudol ydyw, nid yw'n rhan o gynllun datblygu ffurfiol Cymru, er ei bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i'r Cynllun Gofodol wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau datblygu. Ystyrir y berthynas â Chynllun Gofodol Cymru hefyd wrth i'r Arolygiaeth Cynllunio archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol.

15. Cyhoeddwyd **Polisi Cynllunio Cymru** (PCC) yn 2002 yn y lle cyntaf ac mae hwnnw'n gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio yng Nghymru. O fewn y cyd-destun hwnnw, bydd awdurdodau cynllunio lleol yn paratoi eu cynlluniau datblygu statudol. Dyna brif ffynhonnell polisi cynllunio cenedlaethol a honno yw'r ffynhonnell ac iddi awdurdod. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gwneud y canlynol:

- mae'n gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio yng Nghymru;
- mae'n sôn am brif amcanion ac egwyddorion y polisi;
- mae'n casglu ynghyd y canllawiau sydd ar gael eisoes sy'n ymwneud â'r system cynllunio a'i phrif weithdrefnau;
- mae'n sôn am bolisiau sy'n ymwneud â'r holl bynciau allweddol ym maes defnyddio tir, gan gynnwys trafniadaeth, tai, manwerthu a chanol trefi, cynorthwyo'r economi a'r peryglon i'r amgylchedd.

16. Diweddarwyd PCC yn 2010 er mwyn crynhoi at ei gilydd mewn un ddogfen y polisiau cenedlaethol a gynhwysid cyn hynny yn Natganiadau Polisi Cynllunio'r Gweinidog a gyhoeddwyd er 2010.

17. Mae **Nodiadau Cyngor Technegol** (TAN) yn cynnwys canllawiau manwl am feysydd polisi cenedlaethol penodol (ee: TAN 8: Ynni Adnewyddadwy). Mae ambell TAN wedi'i ddiweddarau ond lluniwyd rhai eraill ddeng mlynedd a mwy yn ôl. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol ar ffurfiau eraill hefyd, megis Cylchlythyron a chanllawiau ar feysydd polisi penodol megis "Cyflenwi tai fforddiadwy gan ddefnyddio cytundebau Adran 106".

18. Yn sgil *Deddf Cynllunio 2008*, cyflwynwyd system newydd ar gyfer rhoi caniatâd i ddatblygu prosiectau seilwaith cenedlaethol eu

harwyddocâd. Sefydlwyd y **Comisiwn Cynllunio Seilwaith** ddechrau 2010 ac mae wedi dechrau archwilio ceisiadau am ganiatâd datblygu, gan gynnwys ceisiadau am brosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd yng Nghymru lle nad yw'r cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru (prosiectau ynni mawr gan mwyaf).

19. Bwriedir i **Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol** a baratoir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddarparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau'r Comisiwn. Ymgynghorwyd ynglŷn â datganiadau polisi ynni drafft gan Lywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig ddechrau 2010 ond nid yw'r fersiwn derfynol wedi'i chyhoeddi eto. Cyhoeddwyd set ddrafft ddiwygiedig o ddatganiadau polisi cenedlaethol am ynni ym mis Hydref 2010, ynghyd â chyfnod ymgynghori arall a ddaw i ben ym mis Ionawr 2011. Nes bod y datganiadau hyn ar eu ffurf derfynol, yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn dal yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol.

20. Os daw **Mesur Lleoliaeth** Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2010 yn gyfraith, diddymir y Comisiwn Cynllunio Seilwaith a chyflwynir nifer o newidiadau eraill hefyd i'r system cynllunio yn Lloegr. Gwyddom fod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai eisoes wedi ysgrifennu at Weinidogion perthnasol y Deyrnas Unedig gan ddadlau bod y Mesur hefyd yn cynnig cyfle i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddatganoli'r cyfrifoldeb dros roi caniatâd i brosiectau ynni ar raddfa fawr⁵. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw'r Mesur yn darparu ar gyfer hyn.

21. Yn *Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*, cyflwynwyd gofyniad statudol ar i bob awdurdod cynllunio lleol gynhyrchu **Cynllun Datblygu Lleol** (CDLI). Mae'r CDLI yn cynnwys cynigion a pholisïau ar gyfer defnyddio tir yn lleol yn y dyfodol, a dyma'r brif ddogfen cynllunio lleol yng Nghymru. Mae'r CDLI yn disodli'r drefn flaenorol, sef Cynlluniau Datblygu Unedol (CDUau) Mae'r CDLI yn berthnasol i gyfnod rhwng deg a phymtheg mlynedd a dylai adlewyrchu polisïau cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Disgwylir i CDLau fod yn fyrrach na CDUau, disgwylir iddynt wneud mwy o ymdrech i gynnwys y gymuned, a disgwylir iddynt gael eu cwblhau'n gyflymach. Mae system y CDLI yn wahanol iawn hefyd i system y CDU o ran ei bod yn dechrau'n ddwys, sef bod y rhan fwyaf o'r gwaith datblygu tystiolaeth ac ymgynghori â'r gymuned yn digwydd yn fuan yn y broses, cyn

⁵ Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru: [Gweinidog Cymru yn ceisio trafodaeth â Llywodraeth Prydain am ragor o bwerau cynllunio ynni](#), 13 Gorffennaf 2010

cyhoeddi'r cynllun drafft. Ni ddisgwylir i'r polisïau mewn CDLI drafft sydd ar y gweill fagu pwysau wrth i'r cynllun nesáu at ei fabwysiadu. Y rheswm dros hyn yw bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn cael ei asesu gan yr Arolygiaeth Cynllunio ar ddiwedd y broses er mwyn gweld a yw'n "gadarn".

22. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol Cymru naill ai wedi gorffen gweithio ar eu CDUau neu wedi rhoi'r gorau i wneud hynny, ac wedi cyrraedd gwahanol gamau ym mhroses datblygu eu CDLI. Erbyn diwedd ein hymchwiliad, dim ond dau awdurdod cynllunio lleol a oedd wedi mabwysiadu CDLI yn ffurfiol. Mae Atodiad A yn dangos ymhle'r oedd pob un o'r 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru arni ym mis Rhagfyr 2010 o ran paratoi eu cynllun datblygu.

23. Gall awdurdodau cynllunio lleol gyhoeddi eu **Canllawiau Cynllunio Atodol** (CCA) eu hunain yn gefn i'r polisïau a'r dyraniadau sydd yn y Cynllun Datblygu neu i ymhelaethu arnynt. Nid yw'r CCA yn rhan o'r cynllun datblygu, ond rhaid iddynt fod yn gyson â'r cynllun hwnnw. Gallant fod ar ffurf canllawiau sy'n ymwneud â safleoedd penodol, megis uwchgynlluniau neu ganllawiau dylunio, neu gallant fod yn ymwneud â thema benodol megis safonau manwl ar gyfer parcio ceir. Gellir ystyried CCAu yn ystyriaeth berthnasol ond rhaid eu paratoi drwy broses ymgynghori briodol er mwyn iddynt fod yn ystyriaethau y gellir rhoi pwys arnynt.

24. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adolygiad o'r broses ceisiadau cynllunio** ym mis Rhagfyr 2008. Wedyn, penododd ymgynghorwyr cynllunio GVA Grimley i gynnal yr astudiaeth ymchwil a oedd yn sail i'r adolygiad. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol⁶ ac ymateb y Gweinidog ill dau, a'u trafod mewn Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin 2010⁷. Yn yr astudiaeth hon, edrychwyd ar y broses Ceisiadau Cynllunio, gan roi pwyslais penodol ar effaith cynllunio ar ddatblygu economaidd. Serch hynny, nid archwiliwyd yn fanwl y berthynas rhwng hyn a'r cynnydd yr oedd awdurdodau cynllunio lleol yn ei wneud wrth iddynt gynhyrchu eu CDLlau, nac ychwaith y berthynas rhwng polisïau cynllunio cenedlaethol a pholisïau cynllunio lleol.

⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Adroddiad i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru](#), Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan GVA Grimley, Mehefin 2010

⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Argymhellion a wnaed yn: Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru](#), Mehefin 2010

Materion Allweddol

25. Yn sgil ein hymchwiliad a'r dystiolaeth a gasglwyd, gallwn yn awr gynnig set o gasgliadau ac argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Lywodraeth Cymru. Ceir crynodeb o'n hargymhellion ar dudalennau 6 i 11.

26. Yn y penodau sy'n dilyn, ymdrinnir â'r prif faterion a gododd.

2. Sut mae'r System Cynllunio Bresennol yn Gweithio yng Nghymru

27. Yn ystod ein hymchwiliad, casglwyd amrywiaeth eang o dystiolaeth gan y rheini sy'n gweithredu'r system cynllunio, y rheini sy'n cyflwyno cynigion ar gyfer amrywiol fathau o ddatblygu a'r rheini yr effeithir arnynt gan y polisiau a fabwysiedir a'r penderfyniadau a wneir. Roedd cefnogaeth gyffredinol i egwyddorion system sy'n dilyn y cynllun, system a ddylai, os yw'n gweithio'n iawn, arwain at benderfyniadau ynglŷn â defnyddio tir sy'n gyson â'r polisiau cenedlaethol a lleol diweddaraf. Serch hynny, wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo, fe'n trawyd gan y ffaith bod egwyddorion sylfaenol y system cynllunio sydd yn dal ar waith yng Nghymru wedi'u llunio'n wreiddiol ar gyfer Prydain yn y cyfnod yn syth ar ôl y rhyfel. Ers hynny, rydym wedi disgwyl i system sydd yn ei hanfod yn ymwneud â rheoli defnydd tir wireddu amrywiaeth o amcanion polisi gwahanol, a'r rheini'n cynyddu o hyd. Dywedodd swyddog cynllunio awdurdod lleol wrthym:

“It was set up 63 years ago, in 1947, to do two things. It is a land-use planning system. That is what it is. It is not to prevent childhood obesity and all the other things [...] and it is struggling to deliver affordable housing, as you well know, because it was not set up to do that.

“It was set up, first, to prevent the coalescence of settlements and, secondly, to ensure that this country would have a suitable food supply in times of war in the future. That was it. It is basically the Town and Country Planning Act 1947, and everything else that has been bolted on to it makes it extremely complicated, essentially.”⁸

28. Mae gennym gydymdeimlad mawr â'r swyddogion cynllunio sy'n gweithio i 25 awdurdod cynllunio lleol Cymru y bu disgwyl iddynt ymdopi â'r hyn y disgwylir i'r system cynllunio ei gyflawni, a'r disgwyliadau hynny'n cynyddu o hyd. Sbardunir rhywfaint o hyn gan amcanion polisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac mae gofyn arbenigedd a gwybodaeth dechnegol ar lefel uchel mewn nifer gynyddol o feysydd pwnc newydd megis technolegau ynni adnewyddadwy a thechnegau adeiladu cynaliadwy. Dywedodd swyddog cynllunio awdurdod lleol arall wrthym:

⁸ Cofnod y Trafodion, Para 143-144, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Hydref 2010

“In the vast majority of cases, we do not have the technical expertise to consider all the landscape issues, biodiversity issues, noise impact issues, or the highways issues, although it is down to the local authority to juggle those issues and to gain an understanding of them.”⁹

29. Dysgwyd hefyd, er bod cyfrifoldeb am y system cynllunio defnydd tir wedi ddatganoli gan mwyaf i Weinidogion Cymru, bod hynny wedi'i seilio i raddau helaeth o hyd ar ddeddfwriaeth sylfaenol Cynllunio Gwlad a Thref sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr (gweler paragraffau 8 i 9 uchod). Oherwydd hyn, dros gyfnod, wrth i wahanol anghenion system cynllunio i Gymru ddatblygu, mae pethau wedi mynd yn fwyfwy cymhleth i ddefnyddwyr, i wleidyddion lleol ac i swyddogion cynllunio'u hunain, o ran deall gofynion system cynllunio Cymru. Pan ofynnwyd iddynt am y gwahanu cynyddol rhwng systemau cynllunio Cymru a Lloegr, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

“So, as to where we are with the systems, the two systems are becoming increasingly divergent, and some of the announcements that have been made over the last couple of weeks have further signalled that divergence. That divergence between the systems sometimes makes things quite difficult, because they are both guided or controlled by the same primary legislation. That will be tricky going forward.”¹⁰

30. Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r system bresennol - system sy'n dilyn y cynllun, credwn yn awr fod angen Deddf Cynllunio Newydd i Gymru. Byddai hon yn dal i ddarparu fframwaith ar gyfer system cynllunio sy'n seiliedig ar ddilyn y cynllun, ond byddai'n atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth cynllunio bresennol ac yn cydnabod anghenion gwahanol Cymru.

Argymhelliad 1 Rydym yn argymhell, os bydd canlyniad y refferendwm yn llwyddiannus a bod Cymru'n symud at Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Deddf Cynulliad i atgyfnerthu deddfwriaeth cynllunio defnydd tir gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion gwahanol Cymru.

⁹ Cofnod y Trafodion, Para 199, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Hydref 2010

¹⁰ Cofnod y Trafodion, Para 134-136, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 9 Mehefin 2010

Oni fydd canlyniad y refferendwm yn arwain at gyflwyno Rhan 4, yna, dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfle a gynigir drwy'r Mesur Lleoliaeth i geisio'r cymhwysedd deddfwriaethol ehangaf posibl sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu system cynllunio defnydd tir wahanol a all ddiwallu anghenion Cymru.

31. Fel y'i disgrifiwyd uchod, gwelsom yn y dystiolaeth fod gofyn i'r system cynllunio yng Nghymru wireddu ystod gynyddol o bolisiau a blaenoriaethau, ac nid yw pob un o'r rheini o fewn rheolaeth uniongyrchol system a gynlluniwyd i reoleiddio defnyddio a datblygu tir. Cytunwn â chais rhai o'n tystion am gynnal adolygiad o'r hyn y gofynnir i'r system cynllunio'i gyflawni erbyn hyn.

Argymhelliad 2 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'n ofalus unrhyw gynigion pellach i wireddu amcanion strategol drwy fecanwaith y system cynllunio defnydd tir er mwyn sicrhau mai dyna'r cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer gwireddu'r amcanion hynny a bod ganddi fecanweithiau cyflawni clir sy'n gysylltiedig â hwy.

32. Credwn hefyd y dylid edrych ar y berthynas rhwng rheoli cynllunio a rheoli adeiladu, ar ôl datganoli'r Rheoliadau Adeiladu i Weinidogion Cymru. Pwysodd Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru arnom:

“to take a broad view of the process of development. In the UK, this currently comprises two key stages—planning and building regulations. With the devolution of building regulations to Wales next year, there is a significant opportunity to consider how these may work in tandem to enable the delivery of economic, environmental and social sustainability.”¹¹

Argymhelliad 3 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu swyddogaeth y system cynllunio a'r system Rheoli Adeiladu, ar ôl datganoli'r cyfrifoldeb am Reoliadau Adeiladu ddechrau 2012.

33. Dywedodd rhai tystion wrthym fod angen newid diwylliant ymhlith cynllunwyr gan roi mwy o sylw i reoli ac annog y ffurfiau datblygu iawn, yn hytrach na rhoi'r pwyslais ar reoli datblygu. Esboniwyd hyn inni gan yr ymgynghorwyr cynllunio, GVA Grimley fel a ganlyn:

¹¹ Cofnod y Trafodion, Para 112, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Gorffennaf 2010

“It has to go to the proper training of planners. More importantly, it has to go to the language and culture within which planning operates at the moment. It is changing; it has always been one of control and negativity, where the bar is set incredibly and disproportionately high. We need to change that emphasis to managing and encouraging the right forms of development rather than discouraging the wrong forms. That is very subjective, because that is what planning is.”¹²

34. Wrth ymateb i adolygiad GVA Grimley, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i adolygu'r polisi rheoli datblygu presennol, a chyhoeddi canllawiau 'arferion gorau' newydd yn 2011. Credwn y byddai canllawiau o'r fath o fudd ond mae angen iddynt fynd y tu hwnt i nodi'r 'arferion gorau' yn unig. Dylid dweud yn glir bod angen newid diwylliant a symud tuag at reoli datblygu, gan roi pwyslais ar ddatblygu cynaliadwy.

Argymhelliad 4 Rydym yn argymell, ar ôl adolygu'r drefn bresennol, y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir ar fabwysiadu dull 'rheoli datblygu' ar gyfer cynllunio defnydd tir. Dylai'r canllawiau hyn restru'r amrywiaeth o swyddogaethau a gweithgareddau sy'n ategu penderfyniadau ar geisiadau ac apeliadau cynllunio wrth sicrhau datblygu cynaliadwy.

35. Yn yr ymchwiliad hwn, nid ystyriwyd elfen ceisiadau cynllunio'r system cynllunio'n fanwl gan fod hyn wedi'i archwilio'n ddiweddar yng ngwaith GVA Grimley. Serch hynny, un peth cyffredinol a oedd yn codi o hyd yn y dystiolaeth oedd nad yw Aelodau lleol bob tro'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n unol â'r cynllun datblygu neu'n seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol, ond eu bod weithiau'n eu gwneud am resymau gwleidyddol. Mae'n bosibl y caiff y penderfyniadau hyn eu gwrthdroi adeg yr apêl. Yn ôl Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig:

“It is very important that particularly members understand the importance of the policies that are set within that plan, and the need for them to make decisions consistent with those policies. At the moment, as many of us know from experience, that is not always the case, partly because of pressure that may be

¹² Cofnod y Trafodion, Para 164, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 30 Mehefin 2010

exerted on members in their capacity as elected representatives [...].”¹³

36. Wrth gyfeirio at y pwynt hwn, dywedodd y Gweinidog wrthym yn ei thystiolaeth:

“I think that there is still some way to go in terms of the dialogue with elected members, and it is a regular issue in my dialogue with elected members that planning decisions need to be taken according to planning policy, not according to political objectives. If they are not, members can end up giving some fairly substantial costs to their local authority by ignoring the advice of the planning officials in this context. Where those levels of advice have been appropriately taken, we see the planning application and policy process work in much greater harmony.”¹⁴

Argymhelliad 5 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu rhagor o ymchwil i weld i ba raddau y mae penderfyniadau ar geisiadau cynllunio mynd yn groes i argymhelliad swyddog a'r problemau sy'n codi yn sgil hynny.

¹³ Cofnod y Trafodion, Para 21, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 30 Mehefin 2010

¹⁴ Cofnod y Trafodion, Para 99, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 23 Medi 2010

3. Polisiâu Cynllunio Cenedlaethol

37. Clywsom yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad fod cefnogaeth gyffredinol i'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n mynd ati i lunio polisiâu cynllunio cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i'r polisiâu ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r canllawiau a gyhoeddwyd yng nghyfres y Nodiadau Cyngor Technegol (TANs).

38. Er enghraifft, dywedodd y CBI wrthym: "Overall, 'Planning Policy Wales', particularly the latest version, is quite a good document given the thrust and direction that it takes."¹⁵ Dywedodd Cymdeithas Tai Cymru a Gorllewin Lloegr: "The national policies are clear".¹⁶ Dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru:

"Our view is that the strategies have set out the direction and the targets and the outcomes that the Assembly Government wants to achieve, and the LDPs then provide the opportunity to bring these together."¹⁷

39. Cytunwn â'r farn a fynegwyd o blaid Polisi Cynllunio Cymru ac yn gyffredinol â'r ffordd y caiff polisiâu cynllunio cenedlaethol eu geirio. Mae'n amlwg i ni bod rhai polisiâu cynllunio cenedlaethol wedi dod o dan ddylanwad ymrwymadau Llywodraeth Cymru fel y'u mynegir yn nogfen *Cymru'n Un*.

40. Cefnogwn hefyd y newidiadau sydd wedi'u gwneud yn ddiweddar i broses cyhoeddi canllawiau newydd gan sicrhau mai un ddogfen yw Polisi Cynllunio Cymru bellach sy'n cynnwys yr holl bolisiâu cynllunio cenedlaethol diweddaraf. Serch hynny, dywedwyd wrthym fod angen diweddarau rhai o'r TANs ar frys. Yn benodol, cawsom wybod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, nad yw'r TAN sy'n ymwneud â'r laith Gymraeg wedi'i ddiweddarau er 2000.

41. A chofio bod adolygu ac ailgyhoeddi canllawiau TAN 20 sy'n ymwneud â chynllunio a'r laith Gymraeg yn un o ymrwymadau cytundeb Cymru'n Un, credwn y dylid gwneud y gwaith hwn cyn gynted ag y bo modd.

¹⁵ Cofnod y Trafodion, Para 130, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 30 Mehefin 2010

¹⁶ Cofnod y Trafodion, Para 7, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Gorffennaf 2010

¹⁷ Cofnod y Trafodion, Para 108, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 23 Medi 2010

Argymhelliad 6 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r canllawiau ar gynllunio a'r laith Gymraeg a hynny'n flaenoriaeth.

42. Clywsom rhai'n dweud bod canllawiau'r TANs, mewn ambell achos, yn canolbwyntio ar ardaloedd trefol ac nad oeddent bob tro'n berthnasol i ardaloedd gwledig, yn enwedig yng nghyswllt darparu tai fforddiadwy. Dywedodd swyddogion cynllunio awdurdod lleol wrthym:

“Coming back to the guidance that we get, part of it seems to be quite urban based, which may work in an urban environment but it simply does not translate to a rural area [...]”¹⁸

43. Er bod cefnogaeth gyffredinol i bolisïau cynllunio cenedlaethol, clywsom amrywiaeth o wahanol safbwyntiau ynglŷn ag i ba raddau yr oedd modd dehongli'r polisïau hynny. Dadleuai rhai tystion fod y blaenoriaethau'n glir mewn polisïau cynllunio cenedlaethol. Dywedodd yr Arolygiaeth Cynllunio wrthym:

“I think that the Assembly Government has been very good at indicating when it has developed its current framework, particularly for things like affordable housing, sustainable development and zero-carbon housing, that it does consider these to be principal primary policy objectives. As far as we are concerned in the Inspectorate, and as far as the inspectors are concerned as they go about their tasks, there are no questions or complaints about how much priority should be given to the relevant policies. From our point of view, the policy priorities are set very clearly.”¹⁹

44. Credai Cymorth Cynllunio Cymru hefyd: “there is a valid policy framework in place that is, in theory, capable of delivering what it is intended to do.”²⁰ Serch hynny, cawsom ar ddeall nad yw'n glir i lawer o ddefnyddwyr sut y dylid datrys polisïau cynllunio cenedlaethol sy'n cystadlu â'i gilydd a pha flaenoriaethau a ddylai ddod gyntaf os oes gwrthdaro. Er enghraifft, dywedodd swyddog cynllunio awdurdod lleol wrthym:

¹⁸ Cofnod y Trafodion, Para 195, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Hydref 2010

¹⁹ Cofnod y Trafodion, Para 7, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Hydref 2010

²⁰ Cofnod y Trafodion, Para 23, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 9 Mehefin 2010

“[...] there is no higher-level steer from the Assembly Government on what is in the ascendancy at any given moment. Often, we are left with myriad competing and conflicting interests to deal with [...]”²¹

46. Mae hyn yn arbennig o wir wrth bwysu a mesur ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Dywedodd y CBI wrthym:

“We should have a clearer statement of the role of economic development as a consideration in planning matters. At the moment, there are three pillars of sustainable development: economic, social and environmental. I do not think that there is any balance in the way that those three pillars are taken into account in planning decisions.”²²

47. Cafwyd ambell awgrym bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael mwy o sylw oherwydd bod y gyfraith yn mynnu bod awdurdodau'n asesu'r effaith ar yr amgylchedd ac ar gynefinoedd. Dywedodd swyddog awdurdod cynllunio lleol:

“Personally, I think that there is a lot of pressure on us to deal with environmental and ecology matters. I think that that is reflected in the fact that there are other appraisal mechanisms, not just the sustainability appraisal, that include the environment and we now also have to deal with strategic environmental assessments and habitat regulations assessments, which may throw up another assessment, the appropriate assessment. That all seems to be weighted towards making sure that we do not harm the environment.”²³

48. Mae'r Parciau Cenedlaethol yn wynebu anhawster penodol wrth benderfynu faint o bwys y dylid ei roi ar eu 'pwrpas arbennig' yng nghyswllt polisiau cynllunio cenedlaethol.

49. Rydym yn argyhoeddedig bod angen rhywfaint o eglurder ynglŷn â'r flaenoriaeth gymharol y dylid ei rhoi i bolisiau cynllunio cenedlaethol, ac yn benodol, ynglŷn â sut y bydd y datganiad polisi newydd arfaethedig am ddatblygu economaidd yn cydweddu â'r ysgol o bolisiau sydd ar gael eisoes. Yn ein barn ni, mae angen i'r datganiad hwn esbonio sut mae'r holl bolisiau cynllunio'n berthnasol i wireddu rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer adnewyddu'r economi yn hytrach

²¹ Cofnod y Trafodion, Para 123, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Hydref 2010

²² Cofnod y Trafodion, Para 23, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 30 Mehefin 2010

²³ Cofnod y Trafodion, Para 119, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Hydref 2010

na dim ond diweddarau polisïau Pennod 7 Polisi Cynllunio Cymru. Gwyddom fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i werthuso'r polisïau cynllunio presennol ar gyfer datblygu economaidd o'u cymharu â'i pholisïau datblygu economaidd ac i gwmpasu'r gofynion o ran polisïau cynllunio yn y dyfodol yng nghyd-destun Rhaglen Adnewyddu'r Economi sydd ar y gweill.

Argymhelliad 7 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

- ddiwygio pennod 1 Polisi Cynllunio Cymru i ddatgan yn fwy clir beth yw ei blaenoriaethau strategol ac i egluro sut y dylid datrys amcanion sy'n gwrthdaro â'i gilydd pan fyddant yn codi yn y system cynllunio.**
- sicrhau bod y datganiad polisi newydd arfaethedig am ddatblygu economaidd yn dweud yn glir sut y disgwylir i bob polisi cynllunio cenedlaethol gyfrannu at wireddu Rhaglen Adnewyddu'r Economi.**

50. Cawsom ein hargyhoeddi hefyd gan y cais am weld cyflwyno rhyw fath o 'ragdybiaeth' o blaid mathau penodol o ddatblygu er mwyn cynorthwyo i sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng amcanion polisi. Awgrymwyd hyn inni gan swyddog awdurdod cynllunio lleol:

“[...] there is some merit in at least thinking more about a return to some form of presumption in favour of development that supports community regeneration or that supports community wellbeing—something of that order—to give us an overarching guiding principle to force us into the right balance. There is really nothing to force us to get that balance at the moment.”²⁴

51. Yn ein hymchwiliad blaenorol i Leihau Carbon yng Nghymru, casglwyd y dylai cynaliadwyedd fod wrth wraidd y broses cynllunio, gan gynnwys polisïau cynllunio penodol i leihau carbon yn y polisïau ar gyfer cymunedau cynaliadwy.

52. Yn ein barn ni, byddai rhagdybiaeth o blaid datblygu'n cynnig 'egwyddor tywys' cyffredinol ar gyfer polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol. Serch hynny, credwn y dylai hyn fod ar ffurf rhagdybiaeth o blaid 'datblygu cynaliadwy', a bod angen diffinio hynny'n glir. Credwn hefyd ei bod yn bwysig monitro cyfraniad y system cynllunio at wireddu

²⁴ Cofnod y Trafodion, Para 178, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Hydref 2010

datblygu cynaliadwy yng Nghymru, a bod adroddiad yn cael ei baratoi am hyn unwaith y flwyddyn fan leiaf.

Argymhelliad 8 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

- ystyried cyflwyno yn ei pholisi cynllunio ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.**
- darparu tystiolaeth benodol am gyfraniad y broses cynllunio at ddatblygu cynaliadwy yn yr adroddiad blynyddol am wireddu'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy y mae gofyn i Weinidogion Cymru ei roi gerbron y Cynulliad.**

53. Fel rheol, ni fydd polisiau cynllunio cenedlaethol yn cynnwys polisiau gofodol penodol. Serch hynny, mae ambell ddogfen yng nghyfres y Nodiadau Cyngor Technegol sydd yn cynnwys gwybodaeth ofodol. Yr enghreifftiau allweddol yw'r rheini sy'n ymwneud ag ynni gwynt adnewyddadwy a pherygl llifogydd. Dywedwyd wrthym fod dimensiwn gofodol y canllawiau hyn yn fuddiol, er bod rhai wedi dweud bod anawsterau wedi codi wrth fireinio ffiniau ac ymdrin â gwybodaeth ofodol ar lefel leol. Yn benodol, mae'n ymddangos bod problemau'n codi wrth i awdurdodau cynllunio lleol fireinio ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Strategol, ac mewn ambell achos, clywsom fod y fethodoleg a ddefnyddiwyd wedi bod yn wallus. Dyma un sefyllfa lle y credwn y byddai rhagor o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru o gymorth. Dywedodd Renewables UK wrthym:

“One issue that has proved difficult and has confused things a little, particularly with regard to TAN 8, is the annex D refinement. Many local authorities were quite slow at doing the refinement work, but the authorities that were quick off the mark and invested the time, effort and resources in that have since had to withdraw, because their methodologies were questioned at appeal. That is really unfortunate, because the authorities that embraced it, moved forward with it, and have been proactive subsequently felt that it was all a bit of a waste of time and effort.”²⁵

Argymhelliad 9 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol

²⁵ Cofnod y Trafodion, Para 111, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 23 Mehefin 2010

ynglŷn â sut mae mireinio ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Strategol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb.

54. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cynnig canllawiau ar bynciau penodol sy'n ymwneud â sut y dylid rhoi polisïau cynllunio cenedlaethol ar waith mewn CDLlau. Mae hyn yn cynnwys gweld pa bolisïau rheoli datblygu cenedlaethol na ddylai fod angen eu hailadrodd mewn polisïau lleol. Yn sgil y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad, cawsom ar ddeall bod y rhain yn fuddiol, er nad oes i'r polisïau hyn yr un statws ag sydd i'r rheini a geir mewn cynllun datblygu. Nid yw'r polisïau wedi'u mynegi ychwaith yn yr un ffurf gryno ag y mynegir polisïau mewn cynlluniau datblygu. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig i'n hymchwiliad, dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod hyn yn creu 'gwactod polisi':

"[...] planners have to rely on national policy which in a case of biodiversity resources for example, consists of Planning Policy Wales and TAN 5. The main problem with this is that Planning Policy Wales and TAN 5 are not set out in the form of development plan policies, with clear criteria by which development proposals can be judged, being instead in the form of a generic and often somewhat open-ended narrative. This creates a high degree of uncertainty amongst plan-formulators and users of the plan, be they development control officers in local planning authorities, developers or communities seeking to protect such resources, as to the definitive intent of such statements. Their generalised wording can therefore lead to all manner of interpretation and challenge."²⁶

Argymhelliad 10 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r penodau ym Mholisi Cynllunio Cymru er mwyn sicrhau bod y polisïau rheoli datblygu cenedlaethol yn cael eu mynegi'n llawn ar ffurf polisïau y gellir croesgyfeirio'n glir atynt mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

55. Mae'n amlwg i ni fod polisïau cynllunio cenedlaethol fel rheol yn cael eu datblygu drwy ymgynghori ag ystod eang o ddefnyddwyr. Yn ogystal â hynny, gwyddom fod Llywodraeth Cymru'n seilio'i gwaith

²⁶ Cyswllt Amgylchedd Cymru, [*Ymateb i bwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwiliad i Gynllunio yng Nghymru*](#), Mehefin 2010

datblygu polisïau ar raglen ymchwil. Serch hynny, dywedwyd wrthym fod angen mecanweithiau y gellid eu defnyddio i roi polisïau cynllunio cenedlaethol ar bawf mewn ffordd fwy effeithiol. Dywedodd Ymgyrch Cymru Wledig wrthym yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

“We believe it inequitable and inappropriate that such double standards should exist whereby local planning policy is subject to detailed and rigorous scrutiny through [the] open and accountable process of the Public Inquiry [...] whilst crucial Assembly policy is not subject to the same independent proofing and evaluation.”²⁷

56. Credwn y dylid craffu'n fwy trwyadl ar bolisïau cynllunio cenedlaethol a'u hasesu'n fwy manwl cyn llunio'r fersiwn derfynol. Gofynnwyd i'r Gweinidog am y bwriad o gyflwyno prawf effaith ar gyfer datblygu polisïau newydd a chawsom gadarnhad ganddi, er bod hyn dan ystyriaeth, na fyddai'r weinyddiaeth bresennol yn cyflwyno prawf o'r fath.

Argymhelliad 11 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno prawf effaith er mwyn pwyso a mesur unrhyw gynigion am bolisïau cynllunio cenedlaethol newydd yn y dyfodol ac y dylai ymgynghori'n eang ynglŷn â chanlyniadau'r prawf cyn cyflwyno unrhyw bolisïau newydd. Dylai'r prawf effaith gynnwys asesu effaith bosibl unrhyw bolisïau newydd ar ardaloedd gwledig yn ogystal ag ar ardaloedd trefol. Dylai'r prawf gynnwys hefyd fecanwaith monitro i fesur canlyniad y polisi ar ôl ei roi ar waith.

57. Mae rhai sy'n defnyddio Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol yn poeni bod oedi weithiau, ar ôl ymgynghori ynglŷn â pholisïau ar eu ffurf ddrafft, cyn eu cyhoeddi ar eu ffurf derfynol. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod sawl ffactor yn gyfrifol am yr oedi hwn, gan gynnwys datblygiadau ym mholisïau Ewrop. Ambell waith, mae hyn wedi creu rhywfaint o ansicrwydd i'r rhai sy'n defnyddio polisïau. Credwn fod lle i sicrhau gwell cyfathrebu â defnyddwyr ynglŷn ag amserlen datblygu polisïau cynllunio cenedlaethol.

Argymhelliad 12 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen wedi'i diweddarau ddwywaith y flwyddyn ar

²⁷ Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, [*Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwydd i "Gynllunio yng Nghymru", Cyflwyniad gan Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig*](#), Mehefin 2010

gyfer cyflwyno agweddau ar bolisiâu cynllunio cenedlaethol a'r Nodiadau Cyngor Technegol sy'n gysylltiedig â hwy yn y dyfodol, ac ar gyfer eu hadolygu a'u diweddarau. Dylai hyn gynnwys manylion am ba bryd y disgwylir cyhoeddi'r fersiwn ddrafft a'r fersiwn derfynol a dylai esbonio'r rhesymau dros ohirio cyhoeddi unrhyw bolisi a chanllawiau.

4. Cynllun Gofodol Cymru

58. Mae *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* yn mynnu bod Llywodraeth Cymru'n paratoi Cynllun Gofodol Cymru ac mae'n rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r cynllun hwnnw hefyd. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru wrth iddynt baratoi eu CDLlau. Deallwn fod y drefn hon yn cael ei hatgyfnerthu yn sgil y ffaith mai dyma un o'r profion cadernid a ddefnyddir wrth archwilio CDLlau a gyflwynir i'w harchwilio.

59. Roedd yr holl dystiolaeth a gawsom, bron iawn, yn dweud wrthym fod swyddogaeth a phwrpas Cynllun Gofodol Cymru yng nghyswllt y system cynllunio yng Nghymru yn aneglur. Dywedodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai:

"I find it difficult to pin down exactly what the Wales Spatial Plan does. On the one hand, it is a visionary document for Wales that has many laudable aspirations. On the other hand, it is supposed to be a document that is specifically referenced within the LDP system."²⁸

60. Dywedodd y CBI: "we do not see the spatial plan as having teeth at the moment".²⁹ Mae rhai wedi gwneud cais am gael egluro'r berthynas rhwng Cynllun Gofodol Cymru a pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol. Dywedwyd wrthym y gallai Cynllun Gofodol Cymru fod yn werthfawr o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion strategol, trawsffiniol. Awgrymwyd hefyd y gallai fod iddo swyddogaeth o ran cryfhau'r cydweithredu rhwng awdurdodau cynllunio lleol. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

"The spatial plan could have provided that strategic guidance that could have linked land use, economic, and transportation planning in a single document, and given that guidance to the regions and the nation. However, it did not do that, and so we still have a regional transport plan and an economic plan, and these things are not linked. Therefore, that central strategy is not there."³⁰

²⁸ Cofnod y Trafodion, Para 156, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Gorffennaf 2010

²⁹ Cofnod y Trafodion, Para 66, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 30 Mehefin 2010

³⁰ Cofnod y Trafodion, Para 123, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 9 Mehefin 2010

61. Galwai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd am grŵp craidd cynllun gofodol, a fyddai'n adrodd i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio defnydd tir ac y dylid rhoi'r dasg a ganlyn i'r grŵp hwnnw: "controlling and bringing together land use and the economic and transport plans to give the whole plan a single direction."³¹

62. Credwn y gallai Cynllun Gofodol Cymru wneud cyfraniad mawr at gefnogi system cynllunio effeithiol, ond mae'n amlwg nad yw'r potensial hwn yn cael ei wireddu ar hyn o bryd. Mae angen gwella pethau, gan gynnwys sicrhau mecanweithiau mwy ffurfiol er mwyn bwrw ymlaen â gwaith y grwpiau rhanbarthol.

Argymhelliad 13 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu rôl a swyddogaeth Cynllun Gofodol Cymru gan ganolbwyntio'n benodol ar sut mae'n berthnasol i fframwaith y cynllun datblygu ac i benderfyniadau ar geisiadau ac apeliadau cynllunio.

Argymhelliad 14 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio mecanweithiau i gryfhau trefniadau gweithio rhanbarthol a chydweithredu ac i ategu pwysigrwydd cynnyrch ac allbwn gwaith rhanbarthol a chydweithredu.

63. Yn ystod cyfnod yr ymchwiliad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu datblygu Cynllun Seilwaith Strategol i Gymru ac archwilio sut y gallai ddefnyddio'i phwerau o dan *Ddeddf Cynllunio 2008* i'r perwyl hwnnw.³² Nid yw'n glir i ni beth fydd y berthynas rhwng unrhyw Gynllun Seilwaith Strategol i Gymru yn y dyfodol a Chynllun Gofodol Cymru, nac yn wir a Pholisi Cynllunio Cymru na'r CDLLau. Yn ein barn ni, byddai'n fwy synhwyrol o lawer petai'r cynllun seilwaith newydd yn rhan o Gynllun Gofodol Cymru diwygiedig.

Argymhelliad 15 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Cynllun Seilwaith Strategol Cymru yng Nghynllun Gofodol Cymru er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ystyried yn llawn wrth baratoi ac archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol.

³¹ Cofnod y Trafodion, Para 150, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 9 Mehefin 2010

³² Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd](#), Gorffennaf 2010

5. Polisiâu Cynllunio Lleol

64. Yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'n hymchwiliad, cadarnhawyd bod CDLlau yn cael eu hystyried yn brif fecanwaith ar gyfer dwyn ynghyd y gofynion polisi ar y lefel leol. Mae'r broses y mae'n rhaid i'r CDLI fynd drwyddi er mwyn cael ei fabwysiadu'n gorfod bod yn drwyadl ac wedi'i seilio ar dystiolaeth oherwydd bod iddi rôl bwysig o ran penderfynu sut y datblygir ardal. Yn sgil ein hymchwiliad, rydym wedi casglu'n gyffredinol fod y mecanweithiau a ddefnyddir i ddatblygu CDLI yn sicrhau bod polisiâu Llywodraeth Cymru'n cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau hyn.

65. Serch hynny, canfuwyd hefyd fod hyn yn golygu bod datblygu CDLI yn broses araf. Gall gymryd pedair blynedd o leiaf o'r dechrau i'r diwedd. Teimlai llawer o dystion fod yr arafwch hwn yn creu rhwyg rhwng polisiâu lleol a pholisiâu cenedlaethol. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

“One issue that faces all local authorities in the LDP process is that new policies come out during that four-year period. You cannot really do it in less than four years—and it could be a bit longer. Given how the system works, we have to take all responses into account and we have to have included them to ensure that the plan is sound. Under the older systems, we could simply have acknowledged that, by the time the plan was adopted, a part of it was already out of date because national policy had moved on, and you simply looked at the national policy instead of that part of your local plan. You then reviewed your local plan in that area very quickly. The LDP procedure does not allow you to do that.”³³

66. Gwaethygir y sefyllfa hon lle na fydd yw awdurdodau cynllunio lleol yn cydymffurfio â'u Cytundebau Cyflenwi. Clywsom nad yw Llywodraeth Cymru'n cymryd unrhyw gamau penodol pan fydd hyn yn digwydd, ac eithrio cytuno ar ddyddiad cwblhau newydd. Dywedodd y CBI wrthym:

“The problem that I have experienced with LDPs is that their delivery agreements are not being met. Quite how you overcome that, I do not know, but it has caused problems in terms of preparing clients for how they would market a site or

³³ Cofnod y Trafodion, Para 174, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 9 Mehefin 2010

get development underway. It needs to be looked at, and perhaps it comes back to the carrots and sticks that I was talking about earlier. How does the Assembly ensure that local authorities meet their delivery agreements. It is an agreement that they prepare, to their timetable, but then they fail to follow it.”³⁴

Argymhelliad 16 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n ofalus a chyhoeddi bob chwe mis amserlen yn dangos cynnydd awdurdodau cynllunio lleol wrth iddynt baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn unol â'r Cytundebau Cyflenwi a gymeradwywyd. Os oes angen, dylai fod yn barod i ddefnyddio'i phwerau o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gymryd camau yn erbyn awdurdodau cynllunio lleol sy'n methu â chydymffurfio â'u Cytundebau Cyflenwi ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol.

67. Gwelsom hefyd fod yr adnoddau a'r arbenigedd a oedd ar gael i ddatblygu CDLlau yn amrywio'n sylweddol o'r naill awdurdod cynllunio lleol i'r llall. Un o'r rhesymau dros hyn yw bod pob awdurdod wedi cyrraedd gwahanol gam. Tra bo rhai awdurdodau'n nesáu at y cam mabwysiadu, megis dechrau mae awdurdodau eraill.

68. Dywedwyd wrthym ei bod yn bosibl i wahanol awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru ddehongli polisi cynllunio cenedlaethol mewn ffordd wahanol i'w gilydd. Mewn ambell achos, teimlid bod hyn yn achosi problemau o ran deall polisiâu. Serch hynny, teimlai eraill ei bod yn bwysig caniatáu'r amrywiadau hyn er mwyn adlewyrchu gwahaniaethau yng Nghymru h.y. byddai anghenion ardaloedd gwledig, trefol a'r Cymoedd yn wahanol. Un awgrym a gynigiwyd inni oedd y dylid gosod y polisi cenedlaethol ar lefel sylfaenol ofynnol, er mwyn i awdurdodau cynllunio lleol fynd ymhellach na hynny petai'r dystiolaeth ganddynt i gefnogi cam o'r fath. Roeddem yn cytuno â'r syniad y byddai o fudd petai polisiâu y bwriedid iddynt gyflawni'r un peth mewn gwahanol gynlluniau mewn ardaloedd tebyg (er enghraifft polisiâu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig) yn gallu defnyddio'r un geiriad.

Argymhelliad 17 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru annog arferion da wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol i'w rhannu rhwng awdurdodau cynllunio lleol, gan adeiladu ar brofiad

³⁴ Cofnod y Trafodion, Para 91, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 30 Mehefin 2010

y cynlluniau hynny sydd wedi camu drwy'r system. Dylai hyn gynnwys annog defnyddio'r un geiriad mewn polisïau mewn gwahanol Gynlluniau Datblygu Lleol lle y bwriedir i'r polisïau hyn gyflawni'r un amcan a'u bod ar gyfer ardaloedd tebyg i'w gilydd.

69. Rydym yn croesawu'r ffaith bod system y CDLI yn ei gwneud yn ofynnol ymgysylltu â chymunedau a datblygwyr yn ystod camau cychwynnol datblygu'r Cynllun. Yn ein hymchwiliad, gwelsom fod hyn yn cael ei ystyried yn ddatblygiad cadarnhaol gan ei fod yn golygu bod modd mynd i'r afael â'r peryglon a'r cyfleoedd nad oes modd ymdrin â hwy'n rhwydd yn ystod camau manwl paratoi'r cynllun.

70. Serch hynny, clywsom nad yw'r cam 'datblygu polisïau' cychwynnol hwn yn ddigon manwl i alluogi'r cyhoedd i ddeall y goblygiadau a rhoi eu sylwadau. Dywedodd Cymorth Cynllunio Cymru wrthym mai rhan o'u rôl oedd sicrhau bod pobl yn sylweddoli hyn: "if they do not think strategically, they will get dumped on locally."³⁵

71. Credwn fod angen canllawiau eglurach gan Lywodraeth Cymru ar sut mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod cam datblygu'r polisïau. Y farn oedd bod hyn yn ystyriaeth hefyd i bobl eraill sy'n cynnig sylwadau am safleoedd a gofynion seilwaith. Clywsom hefyd bod cael datblygwyr i ddeall polisïau'n broblem. Nid oedd datblygwyr ar raddfa fach, yn benodol, yn ymgysylltu ag awdurdodau cynllunio lleol yn ystod y cam datblygu polisïau.

Argymhelliad 18 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

- gomisiynu gwerthusiad allanol o lwyddiant neu fethiant y dulliau a ddefnyddiwyd hyd yn hyn i ymgysylltu â'r gymuned mewn Cynlluniau 'Cynnwys y Gymuned' wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol.**
- ar sail canlyniadau'r gwerthusiad hwn, y dylai ddarparu canllawiau clir a hyfforddiant i staff cynllunio awdurdodau lleol ar sut mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod camau cychwynnol datblygu polisïau Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys sut mae paratoi dogfennau cynllunio hygyrch.**

72. Cytunwn ei bod yn hanfodol darparu tystiolaeth gadarn yn gefn i bolisïau'r CDLI. Awgrymodd rhai tystion inni fod problem yn y sylfaen dystiolaeth, yn enwedig gyda golwg ar lifogydd a bioamrywiaeth.

³⁵ Cofnod y Trafodion, Para 62, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 9 Mehefin 2010

Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru wrthym yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

“There is little evidence that LDP formulators are including biodiversity evidence for example beyond statutorily designated sites and legally protected species in their Evidence Base.”³⁶

73. Un o'r materion allweddol a gododd yn sgil ein hymchwiliad diweddaraf i wireddu targedau bioamrywiaeth 2010 oedd pryder am sut mae'r system cynllunio'n ymdrin â bioamrywiaeth.

74. Dywedodd rhai tystion wrthym fod Canllawiau Cynllunio Atodol (CCAau) yn cael eu camddefnyddio ar hyn o bryd gan awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno polisïau lleol heb sicrhau craffu digonol. Dywedodd NFU Cymru yn ei gyflwyniad ysgrifenedig:

“NFU Cymru would wish the Welsh Assembly Government to monitor very carefully and evaluate any use of supplementary guidance by local planning authorities to ensure that they are being used for an appropriate purpose and not as a backdoor method of imposing restrictive policies on legitimate development, especially in rural areas.”³⁷

75. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

“If regulations can be altered so that we can use SPGs in a more creative way in the future, so that we do not have to tie them back to the old adopted plans, but can tie them to national policies or national guidance instead, or expressions of a national policy, that may be a way forward.”³⁸

76. Cefnogwn y cais hwn am weld defnyddio CCAau yn fwy creadigol i hyrwyddo polisi cynllunio cenedlaethol newydd mewn achosion lle nad oes cynllun datblygu wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar. Roeddem yn cytuno hefyd â'r awgrym bod paratoi CCAau ochr â pholisïau drafft y CDLI yn arfer da er mwyn iddi fod yn glir sut y byddai'r polisi'n cael ei roi ar waith. Serch hynny, sylweddolwn y byddai hynny'n golygu goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau cynllunio lleol.

³⁶ Cyswllt Amgylchedd Cymru, [*Ymateb i bwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwiliad i Gynllunio yng Nghymru*](#), Mehefin 2010

³⁷ Ymgynghoriad NFU Cymru, [*Ymchwiliad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gynllunio yng Nghymru*](#), Mehefin 2010

³⁸ Cofnod y Trafodion, Para 215, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 9 Mehefin 2010

Argymhelliad 19 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddatblygu Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi polisïau rheoli datblygu cenedlaethol.

77. Sylweddolwn fod proses y CDLI yn dal yn gymharol newydd yng Nghymru. A CDLIau bellach yn dechrau cael eu mabwysiadu, y disgwyl yw y bydd awdurdodau cynllunio eraill a datblygwyr yn dysgu ac yn deall mwy, a byddem yn rhagweld y byddai'r cynlluniau'n dechrau dod drwy'r system yn gyflymach. Credwn y byddai diweddarau rhywfaint o ganllawiau'r broses o fudd yn awr er mwyn cynnwys y profiad hwn.

Argymhelliad 20 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chanllawiau ar ffurf a chynnwys adroddiadau Monitro Blyneddol Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi sylw i'r profiad a gafwyd hyd yn hyn wrth baratoi cynlluniau.

78. Dywedodd yr awdurdodau cynllunio lleol wrthym eu bod yn poeni y gallai'r ffaith na roddir llawer o bwys ar bolisïau'r CDLI drafft nes bod Arolygwr yn barnu ei fod yn 'gadarn', arwain at greu gwactod polisïau. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

“A further key issue [...] is the lack of status given to the local development plan until it is approved after public examination. We have proposed developments, which are large and economically important, which do not comply with our adopted LDP. However, we have no weight in the new process as of yet. This creates a vacuum and could potentially discourage good development from coming forward. Indeed, where housing land is restricted across Wales, it may allow for poor development to happen.” ³⁹

79. Clywsom hefyd y gall hyn annog datblygwyr i gyflwyno cynigion datblygu nad ydynt yn unol â pholisïau'r CDLI drafft er mwyn ceisio cael eu cymeradwyo cyn mabwysiadu'r cynllun. Pan ofynnwyd i'r tystion ddweud pa un newid allweddol yr hoffent ei weld, dywedodd swyddog awdurdod cynllunio lleol wrthym:

“I would pick on soundness and the fact that plans do not gain significant material weight until the inspector's report is issued. Effectively, an authority could, under the old system,

³⁹ Cofnod y Trafodion, Para 113, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 9 Mehefin 2010

once the plan went on deposit, place some reliance on the new policies that it was proposing. In the new system, if you are proposing tighter policies, more effective policies, to reflect new national approaches or a new emphasis, you are basically giving the industry two years' notice of what the policies might be in two years' time. If they do not like it, they have two years to get all their land through the system under the existing policies that you have acknowledged are not fit for where you want to go in the future."⁴⁰

80. Credwn fod y rhain yn faterion o bwys, yn enwedig i'r rhannau hynny o Gymru lle nad oes cynllun datblygu o unrhyw fath wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar a lle nad oes un yn debygol o gael ei fabwysiadu yn y dyfodol agos. Er enghraifft, bydd pedair blynedd arall yn mynd heibio cyn i Gaerdydd fabwysiadu CDLI, a chredwn fod hynny'n destun pryder difrifol a chofio bod CDU Caerdydd wedi bod ar waith er 1996 a'i fod yn mynd yn fwyfwy anghyson â pholisïau cynllunio cenedlaethol presennol.

Argymhelliad 21 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid rhoi mwy o bwys ar bolisïau Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill pan fydd cysylltiad amlwg rhwng y polisiau hynny a pholisïau cynllunio cenedlaethol a'u hystyried yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio, cyn i'r cynllun gael ei archwilio a'i fabwysiadu'n ffurfiol yn ei grynswth.

Argymhelliad 22 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol er mwyn cyflwyno cam ymgynghori llawn ar y fersiwn ddrafft ym mhroses paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, Para 180, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Hydref 2010

6. Tai Fforddiadwy

81. Edrychwyd ar bolisiau cynllunio cenedlaethol a lleol ar gyfer darparu tai fforddiadwy fel un enghraifft o wireddu un o amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng y system cynllunio. Roedd y dystiolaeth a glywsom yn gefnogol gan mwyaf i'r polisiau cynllunio cenedlaethol ac i'w hymagwedd yn gyffredinol.

82. Serch hynny, clywsom hefyd am sut yr oedd polisiau cenedlaethol yn cael eu dehongli'n wahanol ar y lefel leol, yn enwedig o ran darparu gwahanol ffurfiau ar dai fforddiadwy. Yn benodol, dywedwyd wrthym fod angen egluro pa mor uchel yw tai fforddiadwy ar yr ysgol blaenoriaethau. Rhaid asesu tai fforddiadwy o'u cymharu â blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu â hwy ar lefel leol. Dywedodd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru wrthym: "There is a hierarchy of priorities for planning in the local authority, and where affordable or council housing sits is questionable."⁴¹

83. Mae'r anhawster hwn yn waeth mewn ambell ardal oherwydd bod fframwaith y cynllun datblygu'n hen. Os bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi'r argymhellion sydd yn yr adrannau blaenorol ar waith (yn benodol, argymhellion 7, 8, 11, 16, 17, 19, 21 a 22) sef y rhai sy'n ymwneud â pholisiau cynllunio cenedlaethol a lleol, credwn y dylai fod modd mynd i'r afael â'r pryderon hyn - i raddau o leiaf.

84. Yn y dystiolaeth am dai, gwelwyd hefyd bod angen gwella hyfforddiant a sgiliau, gan ganolbwyntio'n benodol ar asesu pa mor hyfyw yw polisiau a datblygiadau arfaethedig. Fel y dywedodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai:

"[...] I think that the policy needs to be linked to viability, and regardless of whether the policy is used to deliver social rented units, intermediate rented units or shared equity units, we should really be looking at need in each local authority. Viability is a key issue. Regardless of the percentage in your policy, if the development does not come forward, you will not deliver any affordable housing. If you have a policy set at 30 per cent affordable housing, and that has an impact on

⁴¹ Cofnod y Trafodion, Para 25, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Gorffennaf 2010

development viability, 30 per cent of nothing is nothing, so you will not get any products, whether rented or shared equity.”⁴²

85. Serch hynny, dywedodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai hefyd mai polisiau cynllunio tai fforddiadwy yw: “the only national policy on a planning obligation that has clauses—and quite robust ones—within it that require that we take account of development viability.”⁴³

86. Cytunwn fod darparu tai - tai fforddiadwy a mathau eraill o dai - yn dibynnu ar ddeall yn iawn pa mor hyfyw yw cynlluniau. Credwn fod angen seilio polisiau cynlluniau datblygu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy hefyd ar ddealltwriaeth iawn o ba mor hyfyw yw datblygiad. Mae angen i asesu hyfywedd fel hyn adlewyrchu hefyd y newidiadau diweddar yn y cyd-destun economaidd. Croesawn benderfyniad Llywodraeth Cymru i ailgyhoeddi diweddariad o'i chanllawiau ar ddarparu tai fforddiadwy drwy'r system cynllunio yn 2009⁴⁴, er mwyn rhoi sylw i'r dirywiad economaidd. Ymdrinnir â sgiliau a hyfforddi ym mharagraffau 110 i 119 isod. Rydym wedi gwneud argymhelliad penodol ynglŷn â hyfforddi swyddogion cynllunio ac Aelodau Lleol i asesu hyfywedd polisiau a chynigion datblygu, yn benodol yng nghyswllt tai fforddiadwy ond yng nghyswllt mathau eraill o ddatblygu hefyd.

87. Roedd y dystiolaeth a glywsom am dai'n tynnu'n sylw hefyd at y ffaith bod angen sicrhau bod argymhellion Arolwg Essex am dai fforddiadwy yng Nghymru⁴⁵ yn cael eu rhoi ar waith yn llawn, gan gynnwys datblygu sylfaen dystiolaeth genedlaethol ar gyfer tai.

Argymhelliad 23 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod argymhellion Arolwg Essex am sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer tai'n cael eu rhoi ar waith yn llawn.

⁴² Cofnod y Trafodion, Para 133, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Gorffennaf 2010

⁴³ Cofnod y Trafodion, Para 137, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 14 Gorffennaf 2010

⁴⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Cyflenwi tai fforddiadwy gan ddefnddio cytundebau Adran 106: Cyfarwyddyd wedi'i ddiweddaru](#), Hydref 2009

⁴⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Rhoi Adolygiad Essex ar waith: y camau nesaf](#), Mehefin 2008

7. Ynni Adnewyddadwy

88. Edrychwyd hefyd ar bolisiau cynllunio cenedlaethol a lleol ar gyfer darparu tai fforddiadwy fel un enghraifft o wireddu un o brif amcanion polisi Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng y system cynllunio. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn awgrymu mai'r teimlad oedd bod polisi cynllunio cenedlaethol yn ddigonol ym maes ynni adnewyddadwy. Dywedodd Renewable UK wrthym:

“Windfarm development is an essential part of the renewable energy mix, and WAG has given a strong steer and provided a strong impetus in trying to push it forward.”⁴⁶

89. Awgrymwyd nad oedd ymagwedd Llywodraeth Cymru drwyddi draw cyn gryfed ag yr oedd yr ymagwedd yn yr Alban, ond mai'r rheswm am hyn, mae'n debyg, oedd cymhellion ariannu y tu allan i'r system cynllunio.

90. Clywsom fod TAN8: Ynni Adnewyddadwy yn cael ei ystyried yn bolisi adeiladol a bod datblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol a grwpiau amgylcheddol yn ei gefnogi. Serch hynny, roedd rhywfaint o feirniadaeth ar ymarferion mireinio lleol yr Ardaloedd Chwilio Strategol gan awdurdodau cynllunio lleol, gan feirniadu'n enwedig y methodolegau a ddefnyddid. Archwilir y mater hwn yn fanylach yn yr adran am bolisi cynllunio cenedlaethol uchod ac rydym wedi gwneud argymhelliad penodol bod angen mwy o ganllawiau (gweler paragraff 53 ac **argymhelliad 9**).

91. Dywedodd Renewable UK wrthym ei bod yn anodd i hyrwyddwyr ynni adnewyddadwy wahaniaethu rhwng prosiectau o dan 50 Megawatt (MW) a phrosiectau dros 50MW, gan eu bod yn cael eu pennu drwy wahanol fecanweithiau; ystyrir prosiectau dros 50MW yn Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd ac nid yw'r rhain wedi'u datganoli i Gymru.

“The fact that there are two processes working together can be difficult. It is not about whether decisions are taken in Wales or not; it is more about the fact that there are two different approaches, with different timescales and requirements. It is confusing and surely, if something is considered to be

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, Para 122, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 23 Mehefin 2010

nationally significant, it should all be packaged together and dealt with as a whole.”⁴⁷

92. Rydym wedi gwneud argymhellion penodol ynglŷn â chyfrifoldebau am ganiatadau ynni yn yr adran am Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd (gweler paragraffau 100 i 109 ac argymhellion 25 i 28).

93. Dysgwyd bod nifer o faterion eraill yn peri problemau arbennig i brosiectau y penderfynir yn eu cylch yng Nghymru, gan gynnwys cludo offer i'r safleoedd ynni adnewyddadwy, gan eu bod wedi'u lleoli'n bennaf mewn ardaloedd gwledig diarffordd a chan fod nifer o gynlluniau ynni adnewyddadwy mewn ardal benodol yn gallu cael effaith gronnus.

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, Para 164, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 23 Mehefin 2010

8. Datblygu ac Adnewyddu'r Economi

94. Y trydydd prif faes polisi yr edrychwyd arno fel enghraifft o wireddu un o amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru drwy'r system cynllunio oedd datblygu ac adnewyddu'r economi. Roedd hyn yn amserol oherwydd yn ystod yr ymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Raglen Adnewyddu'r Economi.⁴⁸

95. Er bod rhywfaint o gefnogaeth i'r polisiâu a fynegwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n berthnasol i ddatblygu economaidd, clywsom fod angen yn awr ailystyried y polisiâu hyn yng ngoleuni'r newid mewn amgylchiadau economaidd a Rhaglen Llywodraeth Cymru i Adnewyddu'r Economi. Tynnwyd sylw at hyn yn y gwaith rhagorol a wnaeth GVA Grimley wrth iddynt edrych ar sut yr oedd y system ceisiadau cynllunio'n gweithio.

96. Dywedodd rhai tystion wrthym nad oedd digon o bwys yn cael ei roi ar flaenoriaethau economaidd a chymdeithasol o'u cymharu â'r pwyslais ar flaenoriaethau amgylcheddol. Deallwn fod Llywodraeth Cymru bellach wedi comisiynu ymchwil a fydd yn sail i ddatganiad polisi am ddatblygu economaidd a gyhoeddir yn 2011. Serch hynny, nid yw'n glir i ni a fydd hwn yn cynnig golwg eglurach i'r sawl sy'n defnyddio polisiâu cynllunio ar faint o bwys a roddir ar wahanol bolisiâu neu ar bolisiâu sy'n gwrthdaro â'i gilydd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â datblygu economaidd. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion ynglŷn â faint o bwys a roddir ar bolisiâu cynllunio; ynglŷn â bod angen rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac ynglŷn â rôl y datganiad polisi arfaethedig am ddatblygu economaidd yn yr adran sy'n ymwneud â pholisi cynllunio cenedlaethol uchod (gweler paragraffau 37 i 52 ac argymhellion 7 i 8.).

97. Un o'r materion allweddol a godwyd gan y tystion a gyflwynodd dystiolaeth inni oedd yr anhawster a geid wrth ddehongli polisiâu cynllunio cenedlaethol yn lleol a'u rhoi ar waith. Mynegwyd pryder hefyd am yr oedi wrth baratoi CDLlau ac effaith hyn ar ddatblygu'n lleol. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran gallu darparu ar gyfer seilwaith i gefnogi datblygu economaidd, ac i roi arwyddion clir a chynnar i ddatblygwyr am ofynion yr awdurdod cynllunio lleol (er enghraifft mewn rhwymedigaethau cynllunio neu ofynion yr ardoll seilwaith gymunedol). Unwaith eto, rydym wedi gwneud nifer o

⁴⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd](#), Gorffennaf 2010

argymhellion penodol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn yn yr adran am bolisi cynllunio lleol uchod (gweler paragraffau 64 i 80 ac **argymhellion 16 i 22**).

98. Pryder penodol arall a godwyd gyda ni oedd y diffyg trefniadau ymgynghori statudol â busnesau am bolisi cynllunio. Gan ymateb i adroddiad GVA Grimley, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud eisoes "Byddwn yn gwerthuso cyfranogiad y gymuned fusnes yn broses o ddatblygu polisi cynllunio yn genedlaethol ac yn lleol a nodi meysydd i'w gwella".⁴⁹

Argymhelliad 24 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniadau'r gwerthusiad o sut mae'r gymuned fusnes yn ymwneud â datblygu polisi cynllunio ac wedyn ystyried cyflwyno statws ymgynghorai neu gynghori ffurfiol i sefydliadau busnes fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol.

99. Fel yr oedd yn wir am dai fforddiadwy, dywedwyd wrthym pa mor bwysig oedd hi bod awdurdodau cynllunio lleol yn gallu asesu pa mor hyfyw oedd gofynion polisïau cynllunio a hefyd pa mor hyfyw oedd cynigion datblygu unigol. Credwn mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn yw drwy hyfforddi gweithwyr proffesiynol yn y maes cynllunio a hefyd hyfforddi Aelodau etholedig. Ymdrinnir â sgiliau a hyfforddi ym mharagraffau 110 i 119 isod. Rydym wedi gwneud argymhelliad penodol (argymhelliad 30) ynglŷn â hyfforddi swyddogion cynllunio ac Aelodau lleol i asesu hyfywedd polisïau a chynigion datblygu.

⁴⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [*Ymateb i'r argymhellion a wnaed yn: Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru*](#), Mehefin 2010

9. Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd

100. O'r dystiolaeth a gawsom, y prif fater a godwyd gyda ni am Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd oedd y ddwy system ar wahân a ddefnyddir i wneud penderfyniadau am brosiectau ynni yng Nghymru yn sgil y setliad datganoli. Yn Lloegr, penderfynir ar 'ddatblygiad cysylltiedig' ochr yn ochr â'r Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd. Serch hynny, yng Nghymru, mae elfennau o'r prosiectau sy'n dod o dan Ddeddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref, wedi'u datganoli ac felly, yr awdurdod cynllunio lleol sy'n penderfynu yn eu cylch.

101. Mae'r gwahanol elfennau hyn o brosiect yn aml ynghlwm wrth eu gilydd e.e. gorsaf trawsyrru ar gyfer prosiect cynhyrchu ynni mawr. Mae hyn yn creu ansicrwydd i hyrwyddwyr prosiectau a dywedodd tystion wrthym eu bod am weld y 'datblygiad cysylltiedig' yn cael ei ystyried gyda'r prosiect ynni ei hun. Dywedodd Scottish and Southern Energy wrthym:

“We are saying that, if you are to retain the situation where the approach to developments of over 50 MW exists and it has to go through the IPC or an equivalent process, it makes sense to try to get everything through in one package, so that you get associated developments through at the same time.”⁵⁰

102. O dan y trefniadau presennol, gallai fod yn bosibl i awdurdod cynllunio lleol neu Lywodraeth Cymru wrthod y datblygiad cysylltiedig ar gyfer Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd petai'n credu nad oedd yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol. Cadarnhaodd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith fod hyn yn bosibl:

“[...] you could have a scenario where the IPC had given consent for the major project, for example, and issues remained outstanding in respect of the associated development, which could mean that the project could not go ahead. It would then be for the promoter to go through the normal appellant procedure. I suppose that, in that sense, it is undertaken

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, Para 50, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 23 Mehefin 2010

through the normal appellant procedure, which takes it back to the Assembly and its processes.”⁵¹

Pan edrychwyd gyntaf ar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft am ynni gyntaf ym mis Chwefror 2010, awgrymodd y Gweinidog inni y byddai modd 'atal' prosiect yng Nghymru yr oedd yr Comisiwn Cynllunio Seilwaith wedi cytuno iddo drwy ddefnyddio'r cymhwysedd datganoledig ar gyfer cymeradwyo datblygiadau cysylltiedig, petai'r prosiect yn cael ei weld yn un a oedd yn groes i bolisi cynllunio Cymru:

“[...] if, for example, you ended up in a situation whereby the IPC agreed something that—at both the local authority level and at the Welsh Government level— was seen to be inappropriate or wrong for Wales, or against Welsh policy in areas over which Wales was exercising its competence, clearly Wales could exercise its competence in the way you described. However, it would have to exercise it properly, because any decision would be subject to judicial review.”⁵²

103. Yn ein barn ni, ac yn unol â safbwynt Llywodraeth Cymru ers tro, credwn y dylid datganoli'r cyfrifoldeb am ganiatadau ynni dros 50 Megawatt i Weinidogion Cymru. Er mwyn sicrhau bod pob elfen o'r prosiectau hyn yn dod o dan yr un drefn, awgrymwn hefyd y dylid sefydlu trefniadau cyfochrog â'r rheini a gynigir ar gyfer Lloegr, os datganolir y cyfrifoldeb am ganiatadau ynni dros 50 Megawatt i Weinidogion Cymru. Gellid gwneud hyn, naill ai drwy Ddeddf Cynulliad os digwydd i'r refferendwm lwyddo a bod Cymru'n symud at Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, neu oni lwydda, drwy ddefnyddio'r pwerau creu Mesurau sydd yn y Mesur Lleoliaeth. Oni fydd y pwerau arfaethedig yn ddigonol i ganiatáu i hyn ddigwydd, yna, dylai Llywodraeth Cymru geisio'r gwelliannau angenrheidiol i'r Mesur. Dylai fod gofyn i'r Uned Cynllunio Seilwaith Mawr a sefydlir fel rhan o'r Arolygiaeth Cynllunio ystyried prosiectau ynni ar raddfa fawr, yn ogystal ag unrhyw ddatblygu cysylltiedig yng Nghymru, ond dylai hynny ddigwydd mewn ffordd sy'n gyson â pholisi cynllunio Cymru yn hytrach nag â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Yna, dylai'r penderfyniad terfynol am brosiectau o'r fath gael ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na chan Weinidogion y Deyrnas Unedig.

⁵¹ Cofnod y Trafodion, Para 84, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 7 Hydref 2010

⁵² Cofnod y Trafodion, Para 116, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 11 Ionawr 2010

104. Rydym yn siomedig nad achubwyd ar y cyfle i newid y setliad datganoli yn y maes hwn drwy'r Mesur Lleoliaeth. Byddem yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i barhau i lobïo o blaid cyflwyno'r newidiadau hyn fel gwelliannau i'r Mesur wrth iddo fynd drwy'r Senedd.

Argymhelliad 25 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

- barhau i bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatganoli'r cyfrifoldeb am ganiatadau ynni dros 50 Megawatt i Weinidogion Cymru.**
- ceisio gwelliannau i Ddeddf Cynlluno 2008 er mwyn i benderfyniadau am brosiectau ynni ar raddfa fawr yng Nghymru gael eu gwneud yn unol â pholisi cynllunio Cymru.**
- Os caiff y cyfrifoldeb am ganiatadau ynni dros 50 Megawatt ei ddatganoli i Weinidogion Cymru, a phan ddaw'r cymhwysedd angenrheidiol i law, dylai gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu system gyfochrog â honno a gynigir ar gyfer Lloegr, lle bydd yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr o fewn yr Arolygiaeth Cynllunio yn ystyried prosiectau ynni seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd yng Nghymru yn ogystal â'u datblygiadau cysylltiedig, ond yn cyflwyno'i hargymhellion ynglŷn â'r prosiectau hyn i Weinidogion Cymru.**

105. Bydd penderfyniadau ar Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd yn defnyddio'r Datganiad Polisi Cenedlaethol priodol pan gânt eu cymeradwyo'n derfynol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Er bod y rhain yn dweud y dylid rhoi sylw i bolisiâu Cymru wrth benderfynu ynglŷn â Phrosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd, o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn yr ymchwiliad hwn a hefyd yn sgil ein gwaith cynharach wrth inni edrych ar y Datganiadau Polisi cenedlaethol drafft, nid yw'n glir faint o bwys y dylid ei roi ar bolisiâu Cymru. Mae'n ymddangos y gallai hyn achosi problemau wrth benderfynu ar geisiadau.

106. Dywedodd yr Comisiwn Cynllunio Seilwaith wrthym, ar sail y Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft gwreiddiol am ynni:

“[...] it would be helpful to have explicit recognition of some aspects of the Assembly Government’s policy, and I think that the Assembly Government has been arguing for this.”⁵³

107. Hefyd, wrth sôn am y Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft gwreiddiol am ynni, dywedodd Scottish Southern Energy:

“We are waiting to know what will happen with that and for it to be ratified by the new Government. The key issue for us is that, as far as possible, we want to see that national policy statement fitting in with all of the different tiers of Government. That is something where we need to see a degree of consistency so that it fits in with the spatial plan and your renewable energy plans, so that they all sit comfortably together, pointing in the same direction. The problem occurs when they start to contradict each other, and that is when it becomes really complicated for planners to make decisions.”⁵⁴

108. Roeddem yn siomedig o weld nad yw'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft diwygiedig am ynni a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Hydref wedi'u diwygio i egluro'r union berthynas rhwng polisi cynllunio'r Deyrnas Unedig a pholisi cynllunio Cymru.⁵⁵

Argymhelliad 26 Rydym yn argymell, yn niffyg cyfrifoldeb datganoledig am ganiatadau ynni ar raddfa fawr, y dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobïo Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod y Datganiadau Polisi Cenedlaethol terfynol am ynni'n cynnwys datganiadau clir am faint o bwys y dylai'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith a'i olynydd (yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr o fewn yr Arolygiaeth Cynllunio) ei roi ar bolisiau cynllunio Cymru.

109. Gwelsom hefyd fod y berthynas rhwng y Datganiadau Polisi Cenedlaethol a pholisi cynllunio lleol yn aneglur. Yn Lloegr, anfonwyd llythyr at yr awdurdodau cynllunio lleol i egluro'r pwynt hwn ond nid yw hyn wedi digwydd yng Nghymru.⁵⁶ Byddai o fudd petai Llywodraeth

⁵³ Cofnod y Trafodion, Para 16, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 7 Hydref 2010

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, Para 70, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 23 Mehefin 2010

⁵⁵ Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, [*Consultation on the revised draft National Policy Statements on Energy Infrastructure*](#), Hydref 2010

⁵⁶ Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, [*Letter to Chief Planning Officers: National Policy Statements*](#), 9 Tachwedd 2009

Cymru'n egluro sut mae awdurdodau cynllunio lleol i fod i ystyried Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn eu CDLlau.

Argymhelliad 27 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at awdurdodau cynllunio lleol i esbonio i ba raddau y dylent ystyried y Datganiadau Polisi Cenedlaethol terfynol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

110. Gwelsom ei bod yn anodd cael cefnogaeth i seilwaith mawr mewn ardal pan na fyddai unrhyw fudd uniongyrchol i'r cymunedau lle y byddai'r tarfu'n digwydd. Mae llai o adnoddau wedi bod ar gael i gefnogi gwaith ymgysylltu â'r gymuned yng Nghymru na'r hyn sydd ar gael yn Lloegr, er y gall hyn newid yn sgil cyhoeddiadau diweddar am ariannu Cymorth Cynllunio yn Lloegr yn y dyfodol. Rhoddwyd tystiolaeth inni am enghraifft yng Nghymru lle'r oedd diffyg ariannu wedi golygu nad oedd wedi bod yn bosibl cynnal ymarfer ymgysylltu â'r gymuned oherwydd diffyg adnoddau.⁵⁷

111. At hynny, nid yw awdurdodau cynllunio lleol yn cael ffi am eu llwyth gwaith cynyddol wrth iddynt ymwneud â cheisiadau Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd ac mae hyn yn destun pryder, yn enwedig i'r awdurdodau hynny lle mae'n debygol y gallai nifer fawr o brosiectau ynni adnewyddadwy ddod ger eu bron.

Argymhelliad 28 Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi arian ychwanegol i Gymorth Cynllunio Cymru i'w gynorthwyo i ymgysylltu â'r gymuned ynglŷn â chynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith ynni mawr.

⁵⁷ Papur y Pwyllgor Cynaliadwyedd SC(3)-22-10 papur 7, [*Comisiwn Cynllunio Seilwaith, Nodyn i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd am ei brofiad yn defnyddio Cymorth Cynllunio Cymru \(Saesneg yn unig\)*](#), 11 November 2010

10. Sgiliau, Adnoddau a Hyfforddi

112. Un thema a gododd dro ar ôl tro yn y dystiolaeth a gawsom oedd y diffyg adnoddau mewn awdurdodau cynllunio lleol, ac i ryw raddau, yn Is-adran Cynllunio Llywodraeth Cymru. Roedd a wnelo hyn a nifer y swyddogion a oedd yn ymdrin â'r polisïau a llwyth gwaith y ceisiadau ond hefyd â'u sgiliau a'u gwybodaeth mewn maes cynyddol dechnegol. Roedd diffyg gwybodaeth am dechnolegau ynni adnewyddadwy ymhlith awdurdodau cynllunio lleol a'u diffyg hyder yn y maes hefyd yn fater a gododd yn gryf o'n hymchwiliad blaenorol i Leihau Carbon yng Nghymru. Clywsom fod natur gynyddol dechnegol cynllunio yn effeithio hefyd ar ymgynghorwyr cynllunio a datblygwyr.

113. Dywedodd Renewables UK wrthym: "I do not think that there is anything fundamentally wrong with the planning system—there just needs to be more resources so that planning officers can pull in additional expertise if necessary."⁵⁸

114. Dywedodd yr ymgynghorwyr cynllunio, GVA Grimley, wrthym fod y statws gwahanol a roddir i'r swyddogaeth cynllunio yr un mor bwysig â lefel yr adnoddau. Mewn rhai awdurdodau, swyddog 'ail haen yw'r Prif Swyddog Cynllunio, ond mewn awdurdodau eraill, dim ond swyddog 'pedwaredd-haen' ydyw.

"I think that the important thing is not resource but the profile of the local planning authority. [...] As long as the role has the right profile within the local authority, planning will get the time and respect it ought to, relative to the demands of resources on that authority. So, it should be a tier 2 officer as a minimum requirement. That will then percolate through with regard to the resources that can be reasonably expected from financially challenged authorities."⁵⁹

115. Roedd y posibilrwydd y gallai'r swyddogaeth cynllunio dywys yr agenda lleihau carbon mewn awdurdodau lleol yng Nghymru'n neges glir a gododd o'n hymchwiliad i Leihau Carbon yng Nghymru.

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, Para 125, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 23 Mehefin 2010

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, Para 220, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 30 Mehefin 2010

116. Credwn ei bod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru bwysleisio wrth awdurdodau lleol bwysigrwydd tymor hir CDLlau o ran gwireddu polisiau corfforaethol lleol ac annog awdurdodau lleol i roi digon o sylw i broses y cynllun datblygu ar lefel gorfforaethol, gan gynnwys rhoi arweiniad gwleidyddol, hyd yn oed pan fo arian yn brin.

117. Dymunwn weld grant Llywodraeth Cymru'n parhau i ganiatáu i awdurdodau cynllunio lleol fanteisio ar gymorth technegol i ymdrin â chynlluniau ynni adnewyddadwy a gwastraff, ond credwn y dylid ymestyn hyn i feysydd eraill lle mae arbenigedd technegol yn brin. Rydym hefyd yn croesawu'r enghreifftiau o rannu arbenigedd rhwng awdurdodau cynllunio lleol. Mae hyn wedi bod yn digwydd mewn rhai ardaloedd a byddem am annog rhagor o hyn. Fel y dywedodd Severn Trent Water: "It would be impossible for a local planner to have a full grasp of the full complexity of every single thing that is happening."⁶⁰

118. We also support the Welsh Government's approach to rolling out training to local planning authorities as part of the process of introducing new national policy. The Minister told us that "since 2005, we have provided 1,000 days of training to local authorities to make sure that they take account of national planning policies."⁶¹

119. Serch hynny, clywsom fod angen rhagor o adnoddau i hyfforddi swyddogion awdurdodau cynllunio lleol ac Aelodau lleol. Dywedodd y CBI: "In many cases, there is inadequate experience shown by Members. They definitely need more support to understand the development process and the economic implications involved."⁶² Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, tynnodd Asiantaeth yr Amgylchedd sylw at y ffaith bod angen rhagor o ganllawiau a hyfforddi ar gynlluniau newydd.

120. Credwn ei bod yn hanfodol datblygu a rhannu arbenigedd er mwyn i'r system cynllunio weithio'n effeithiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar adeg pan fo arian yn brin. Er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gyfeirio atynt, rydym wedi cyfuno'n hargymhellion am arbenigedd, hyfforddi a chydweithredu. Disgwylwn i Lywodraeth Cymru ymateb i bob un o'r awgrymiadau penodol a restrir isod yn Argymhelliad 29.

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, Para 208, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 23 Medi 2010

⁶¹ Cofnod y Trafodion, Para 12, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 23 Medi 2010

⁶² Cofnod y Trafodion, Para 37, Pwyllgor Cynaliadwyedd, 30 Mehefin 2010

Argymhelliad 29 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru annog rhannu a datblygu arbenigedd ym maes polisi cynllunio a chynigion datblygu. Awgrymwn y gall hyn ddigwydd mewn sawl ffordd:

- parhau i ddarparu arian i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i gael gafael ar gymorth technegol ar gyfer cynllunio ynni a gwastraff adnewyddadwy a darparu arian tebyg ar gyfer mathau eraill o ddatblygu lle bydd angen arbenigedd arbenigol;
- annog cydweithio a chydweithredu rhwng awdurdodau cynllunio lleol wrth ddatblygu polisiâu cynllunio lleol ac wrth ymwneud â chynigion datblygu technegol mawrion ac / neu arbenigol.
- sefydlu timau cynghori arbenigol am agweddau technegol ac arbenigol polisi cynllunio a all ddarparu gwasanaethau cymorth i awdurdodau cynllunio lleol;
- parhau i ddarparu hyfforddiant ar gyfer swyddogion awdurdodau cynllunio lleol wrth i bolisiâu cynllunio cenedlaethol newydd gael eu cyflwyno ond gan ddarparu'r hyfforddiant hwn hefyd i Aelodau awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y rheini yn y sector preifat;
- darparu hyfforddiant i swyddogion awdurdodau cynllunio lleol ar asesu hyfywedd datblygiad, ar gyfer tai fforddiadwy'n benodol, ond hefyd ar gyfer mathau eraill o ddatblygu.

121. Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adran wrth sôn am sut mae'r system cynllunio'n gweithio ar hyn o bryd, mae pryder cyffredinol am Aelodau etholedig lleol sef nad ydynt bob tro'n penderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio'n unol â pholisi cynllunio, ond eu bod yn hytrach gwneud hynny weithiau am resymau gwleidyddol (gweler paragraffau 35 i 36). Yn **argymhelliad 5** rydym wedi galw am ragor o waith ymchwil i weld i ba raddau y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am geisiadau cynllunio sy'n groes i argymhellion swyddogion a'r problemau a all godi yn sgil hynny. Yn ogystal â'r cynigion a geir yn **argymhelliad 29**, credwn fod angen rhaglen hyfforddi genedlaethol orfodol i Aelodau awdurdodau cynllunio lleol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth i wneud penderfyniadau doeth.

Argymhelliad 30 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu rhaglen hyfforddi genedlaethol orfodol i Aelodau awdurdodau cynllunio lleol sy'n eistedd ar bwyllgorau cynllunio gyda'r nod o sicrhau bod ganddynt yr arfau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Byddai'r hyfforddiant yn cynnwys y fframwaith polisi cenedlaethol, paratoi cynllun datblygu, asesu hyfywedd datblygiad a phroses y cais cynllunio.

Atodiad A: Crynodeb o'r Cynnydd gyda'r CDLlau - Rhagfyr 2010

Blaenau Gwent: Bydd Blaenau Gwent yn ymgynghori ar ei Fersiwn Adneuo ym mis Ebrill 2011; ac mae'n rhagweld y bydd ganddo gynllun wedi'i fabwysiadu erbyn mis Mawrth / Ebrill 2013.
Bannau Brycheiniog: Mae'r ymgynghori wedi dod i ben yn ddiweddar ar fersiwn adneuo'r CDLI (29 Rhagfyr 2010). Disgwylir iddo gael ei fabwysiadu ym mis Hydref 2012. (Cymeradwywyd CDU y Parc at ddibenion rheoli datblygu yn 2007).
Pen-y-bont ar Ogwr: Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyhoeddi ac ymgynghori ar ei Gynigion Cyn-Adneuo'r CDLI ac mae wrthi'n cryfhau ei sylfaen dystiolaeth i baratoi ar gyfer fersiwn adneuo'r CDLI, y disgwylir ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2011.
Caerffili: Mabwysiadwyd CDLI Caerffili ar 26 Tachwedd 2010.
Caerdydd: Ar ôl tynnu CDLI Caerdydd yn ôl o'r archwilio ym mis Ebrill 2010 yn sgil y ffaith bod yr Arolygwyr a oedd yn archwilio'r Cynllun wedi mynegi pryderon sylweddol, mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio ar CDLI newydd ac ar fin ymgynghori ar Gytundeb Cyflenwi drafft yn y dyfodol agos.
Sir Gaerfyrddin: Ar ôl ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir ac ystyried ymatebion, fe'i cymeradwywyd yn ddiweddar gan y Cyngor ac mae gwaith ar y gweill yn awr ar gyhoeddi fersiwn adneuo'r Cynllun, ym mis Ebrill 2011.
Ceredigion: Adneuwyd y CDLI gan y Cyngor ar 22 Rhagfyr. Bydd yr ymgynghori'n parhau am 8 wythnos, gan ystyried gwyliau'r Nadolig, ac yn dod i ben ganol dydd 17 Chwefror. Cyflwynir y cynllun i'w archwilio'n hwyrach yn 2011 gyda golwg ar ei fabwysiadu yn 2012.
Conwy: Adneuwyd CDLI Conwy ym mis Ebrill 2009. Ar ôl adolygu'r strategaeth, bwriedir ei ailadneuo ym mis Tachwedd 2010 a bydd yr ymgynghori'n dechrau ym mis Ionawr 2011. Disgwylir y caiff y cynllun ei fabwysiadu ym mis Mawrth / Ebrill 2012.
Sir Ddinbych: Ar ôl yr ymgynghori cyhoeddus, cynhaliwyd y Cam Sylwadau ar Ddyrannu Safleoedd ym mis Mai a mis Mehefin 2010. Rhagwelir y cynhelir yr archwiliad yng ngwanwyn 2011 ac y caiff y CDLI ei fabwysiadu yn hydref 2011.
Sir y Fflint: Bydd Sir y Fflint yn hysbysebu rhagor o newidiadau i'r CDU ym mis Ionawr 2011, gyda golwg ar y posibilrwydd o'i fabwysiadu'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gwynedd: Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd â Chyngor Sir Fôn i archwilio'r posibilrwydd o baratoi CDLI ar y cyd.
Merthyr Tudful: Ar ôl cyflwyno'r CDLI ym mis Awst 2009, dechreuodd y Gwrandawiadau ym mis Tachwedd 2009; fe'u hataliwyd ym mis Chwefror; cynhaliwyd y Gwrandawiadau ôl-atal ar 5 a 6 Hydref 2010, ac ers hynny, mae'r Arolygydd wedi dweud bod angen i'r Cyngor ystyried materion penodol eto gan ymateb i faterion a godwyd yn ystod y Gwrandawiadau.
Sir Fynwy: Ymgynghorwyd ar y Strategaeth a Ffefrir yn 2009. Ymgynghorwyd yn anffurfiol ar y dyraniadau arfaethedig ar gyfer tai gwledig ym mis Gorffennaf 2010. Bwriedir ymgynghori ar fersiwn adneuo'r Cynllun yng ngwanwyn 2011.
Castell-nedd Port Talbot: Mae'r ymgynghori cychwynnol ar Faterion wedi'i gwblhau gan mwyaf; cynhaliwyd yr ail ymgynghoriad ar ddogfen cwmpasu'r Safleoedd Cais a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn 2010. Mae angen cytuno ar ddyddiad ar gyfer y Cynllun cyn-adneuo; ar hyn o bryd, rhagwelir y caiff y cynllun ei fabwysiadu yng ngwanwyn 2013.
Casnewydd: Ymgynghorwyd ar y Strategaeth a Ffefrir rhwng Ionawr a Mawrth 2010. Gobeithir adneuo'r cynllun ym mis Mehefin 2011, gan ragweld y caiff ei fabwysiadu yng nghanol 2013.
Sir Benfro: Ar ôl diwygio'i Gytundeb Cyflenwi ym mis Rhagfyr 2010, ymgynghorodd Cyngor Sir Penfro ar fersiwn adneuo'r CDLI rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2011. Rhagwelir y caiff y CDLI ei fabwysiadu ddechrau 2013.
Arfordir Penfro: Mabwysiadwyd CDLI APC Arfordir Penfro ar 29 Medi 2010.
Powys: Mae proses paratoi CDLI Powys wedi dechrau a rhagwelir y bydd Cytundeb Cyflenwi ar waith erbyn diwedd 2010 gyda'r nod o fabwysiadu CDLI Powys ddiwedd 2014.
Rhondda Cynon Taf: Mae Gwrandawiadau'r CDLI wedi dod i ben yn awr ac mae'r Awdurdod yn disgwyl llythyr gan yr Arolygydd, gan ragweld y caiff y cynllun ei fabwysiadu ddechrau 2011.
Eryri: Daeth Gwrandawiadau CDLI Eryri i ben ym mis Rhagfyr 2010. Gobeithir y caiff y Cynllun ei fabwysiadu ddechrau 2011.
Abertawe: Dechreuwyd paratoi CDLI Abertawe yn ffurfiol ym mis Awst 2010. Cyn hyn, cymeradwywyd Cytundeb Cyflenwi, ac mae data llinell syflaen wrthi'n cael eu casglu ac asesiadau wedi'u comisiynu'n sail ar gyfer sylfaen dystiolaeth y Cynllun. Yn ôl yr amserlen bresennol, rhagwelir y caiff y cynllun ei fabwysiadu erbyn Rhagfyr 2014.
Tor-faen: Oherwydd bod angen cael rhagor o wybodaeth am ddatblygu Canol Tref Cwmbrân yn y dyfodol ar gyfer proses y Cynllun Datblygu

Lleol (CDLI), cyflwynir adroddiad ynglŷn â fersiwn adneuo'r CDLI i'r Cyngor Llawn yn awr ddechrau 2011. Os bydd y Cyngor yn cytuno ddechrau 2011, ymgynghorir ar fersiwn adneuo'r CDLI ganol 2011.

Bro Morgannwg: Mae Cyngor Bro Morgannwg wrthi'n paratoi CDLI a fydd yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 2011 a 2026. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo ym mis Ionawr a mis Chwefror 2008 a chymeradwywyd strategaeth y CDLI gan y Cabinet ym mis Chwefror 2010. Rhagwelir y caiff fersiwn adneuo'r CDLI ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ddiwedd Gwanwyn 2011.

Wrecsam: Adnewyd CDLI Wrecsam rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2010, gan fwriadu adneuo safleoedd amgen ym mis Ionawr 2011, a chyflwyno'r cynllun i Lywodraeth y Cynulliad yn haf 2011 a chynnal y Gwrandawiadau yng ngaeaf 2011/12.

Ynys Môn: Ni chydymffurfir ag amserlen y cytundeb Cyflenwi diwygiedig, a lofnodwyd gan y Cynulliad ym mis Ionawr 2009, oherwydd bod angen i'r CDLI ystyried goblygiadau datblygiadau newydd mawrion sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy - pŵer niwclear, pŵer y gwynt a phŵer y llanw ym Môr Iwerddon. Mae trafodaethau ar y gweill rhwng Ynys Môn a Gwynedd i baratoi CDLI ar y cyd. (Penderfynodd y Cyngor roi'r gorau i weithio ar ei CDU a pharatoi CDLI. Mae modd cadw rhannau o'r CDU fel canllawiau interim er mwyn gwneud penderfyniadau rheoli datblygu tra bo'r gwaith ar y CDLI yn mynd rhagddo.)

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrif o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w weld yn llawn yn

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-sc-home/bus-committees-third-sc-agendas.htm>

9 Mehefin 2010

Elwyn Thomas	Cymorth Cynllunio Cymru
Cyng Bob Wellington	Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
Duncan Smith	Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
Sean Hannaby	Cyngor Caerdydd
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Craig Mitchell	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

23 Mehefin 2010

Eluned Morgan	Scottish and Southern
Tanya Davies	Renewables UK

30 Mehefin 2010

David Rosser a Leighton Jenkins	Conffederasiwn Diwydiant Prydain
Christine Hirst a Phil John	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Tim Gent	GVA Grimley

14 Gorffennaf 2010

Nikki Cole a Shane Perkins	Tai Cymunedol Cymru
Keith Edwards a Victoria Hiscocks	Sefydliad Tai Cymru
Richard Price	Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai
Andrew DG Sutton a Dafydd Tomos	Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru

23 Medi 2010

Jane Davidson	Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai;
Neil Hemmington a Mark Newey	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ceri Davies ac Anthony Wilkes	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Morgan Parry a Keith Davies	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Mike Davis ac Ian Wyatt	Dŵr Cymru
Simon Cocks	Severn Trent

7 Hydref 2010

Pauleen Lane, Emrys Parry, Mark Wilson Owain George	Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith
---	--------------------------------

14 Hydref

John Davies	Arolygiaeth Cynllunio Cymru
Christopher Morgan a Tracey Nettleton	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Peter Morris ac Alan Southerby	Cyngor Sir Powys
Cath Ranson	Cyngor Sir Penfro

Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl dystiolaeth ygrifenedig i'w gweld yn llawn yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-sc-home/bus-committees-third-sc-agendas.htm>

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Cyngor Sir Penfro	SC(3)-22-10 : Papur 6
Comisiwn Cynllunio Seilwaith	SC(3)-22-10 : Papur 7
Arolygiaeth Cynllunio	SC(3)-20-10 : Papur 1
Awdurdodau Lleol	SC(3)-20-10 : Papur 2
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	SC(3)-20-10 : Papur 3
Comisiwn Cynllunio Seilwaith	SC(3)-19-10 : Papur 1
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai;	SC(3)-18-10 : Papur 1
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	SC(3)-18-10 : Papur 2
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	SC(3)-18-10 : Papur 3
Dŵr Cymru	SC(3)-18-10 : Papur 4
Severn Trent	SC(3)-18-10 : Papur 5
Cymorth Cynllunio Cymru	SC(3)-18-10 : Papur 6
Tystiolaeth gan Dai Cymunedol Cymru	SC(3)-17-10 : Papur 1
Sefydliad Siartredig Tai Cymru	SC(3)-17-10 : Papur 2
Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai	SC(3)-17-10 : Papur 3
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig	SC(3)-15-10 : Papur 1
Confederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru	SC(3)-15-10 : Papur 2
GVA Grimley Ltd	SC(3)-15-10 : Papur 3
Scottish and Southern	SC(3)-14-10 : Papur 1
Renewable UK	SC(3)-14-10 : Papur 2
Cymorth Cynllunio Cymru	SC(3)-13-10 : Papur 1
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	SC(3)-13-10 : Papur 2

Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru	01-SC-PI
Permission Homes Gorllewin Cymru	02-SC-PI
Dwr Cymru Welsh Water	03-SC-PI
Comisiwn Dylunio Cymru	04-SC-PI
Undeb Amaethwyr Cenedlaethol Cymru	05-SC-PI
Renewable Energy Partnerships Ltd - Tystiolaeth	06-SC-PI
Renewable Energy Partnerships Ltd - Cyfnodolyn	06-SC-PI
Renewable Energy Partnerships Ltd - Y Mesur Cynllunio	06-SC-PI
Grid Cenedlaethol	07-SC-PI
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	08-SC-PI
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	09-SC-PI
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	10-SC-PI
Liz Mills	11-SC-PI
Cyswllt Amgylchedd Cymru	12-SC-PI
RSPB	13-SC-PI
Comisiwn Cynllunio Seilwaith	14-SC-PI
Ffederasiwn Busnesau Bach	15-SC-PI
Ffederasiwn Busnesau Bach Atodiad A	15-SC-PI
Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi	16-SC-PI